Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 60/2025

Dyddiad cyhoeddi: 25/06/2025

# Adolygiad o ddata cydraddoldeb yn Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Crown Copyright Digital ISBN 978-1-80633-012-6

Adolygiad o Ddata Cydraddoldeb yn Arolwg Cenedlaethol Cymru

Anneka Owens a Suzanna Nesom, Prifysgol Caerdydd, ar interniaeth y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol i Lywodraeth Cymru, a Jessica Gibson, Sam Collins a John Poole, o'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd, Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Collins, S., Gibson, J., Nesom, S., Owens, A., Poole, J. (2025). Adolygiad o Ddata Cydraddoldeb yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 60/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-adolygiad-o-ddata-cydraddoldeb

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r:

Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chymorth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: yrunedtystiolaethcydraddoldeb@llyw.cymru

**Tabl y cynnwys**

Rhestr o’r tablau.....1
Rhestr o’r ffigurau.....2
1. Cyflwyniad a’r Cefndir.....5
2. Dull.....12
3. Adolygiad o’r Arolwg: Sut y cesglir gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig a nodweddion cysylltiedig a sut y mae’n cymharu â data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru.....19
4. Canfyddiadau: Dadansoddiad cyfunol o’r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol.....43
5. Casgliadau ac argymhellion.....64
6. Cyfeiriadau.....69
7. Atodiad A: Tabl 6. Nodweddion cydraddoldeb a dadansoddiadau a ddefnyddiwyd yn y gwaith dadansoddi.....72
8. Atodiad B: Tabl 7: Rhestr o Ddangosyddion Cenedlaethol y mae Arolwg Cenedlaethol Cymru’n casglu data ar eu cyfer.....74
9. Atodiad C: Tabl 8: Rhestr o Ddangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol a ofynnwyd fesul blwyddyn.....82

**Rhestr o’r tablau**

Tabl 1: Canran y bobl 16 oed a throsodd yn ôl grŵp oedran, gan gymharu data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 â data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru.....20
Tabl 2: Canran y bobl 16 oed a throsodd yn ôl statws partneriaeth sifil a phriodasol cyfreithiol, gan gymharu data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 â data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru.....25
Tabl 3: Canran y bobl 16 oed a throsodd yn ôl grŵp ethnig, gan gymharu data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 â data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru.....32
Tabl 4: Canran y bobl 16 oed a throsodd yn ôl crefydd, gan gymharu data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 â data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru.....34
Tabl 5: Canran y bobl 16 oed a throsodd yn ôl rhyw, gan gymharu data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 â data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru.....37

**Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 1: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl categori oedran, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020 .... 45

Ffigur 2: Canran yr oedolion anabl ac nad ydynt yn anabl 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020 ........ 47

Ffigur 3: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl statws priodasol, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020 . 50

Ffigur 5: Canran y menywod 16 i 54 oed mewn amddifadedd materol yn ôl beichiogrwydd, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020 ........ 54

Ffigur 6: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl grŵp ethnig lefel-uchel, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020. ........ 56

Ffigur 7: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl crefydd, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020. ........ 58

Ffigur 8: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl rhyw, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020 ........ 60

Ffigur 9: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl cyfeiriadedd rhywiol, 2016 i 2017 to 2019 i 2020 data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020 ........ 62

# Rhestr termau

**Anabledd**

Diffinnir anabledd gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a oleuir gan y model meddygol o anabledd ac sy'n diffinio pobl fel pobl anabl oherwydd eu nam. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd sy'n ystyried bod pobl sydd â namau wedi eu hanablu gan rwystrau corfforol, agweddol, a sefydliadol a grëwyd gan gymdeithas.

**APS**

Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

**Arallu**

'Set o ddeinameg, prosesau a strwythurau sy'n creu natur ymylol ac anghydraddoldeb parhaus ar draws unrhyw un neu rai o'r gwahaniaethau dynol llawn yn seiliedig ar hunaniaeth grwpiau' ac sydd felly'n arwain at ymyleiddio a rhagfarn ar sail hunaniaeth rhywun yw arallu.

**Arolwg Cenedlaethol**

Arolwg Cenedlaethol Cymru

**ArWAP**

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

**Croestoriadedd**

Mae croestoriadedd yn golygu effaith gyfunol ffurfiau lluosog ar ormes sy'n deillio o berthyn i grwpiau lluosog sydd wedi eu stigmateiddio, a sut y maent yn cydadweithio ac wedi eu cydgysylltu â'i gilydd. Er enghraifft, gall menywod anabl wynebu gwahanol fathau o wahaniaethu ac anfantais o'u cymharu â dynion anabl.

**GSS**

Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth

**IDTF**

Tasglu Data Cynhwysol

**LHDTC+**

Mae LHDTC+ yn cyfeirio at bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, drawsryweddol/draws, cwiar neu sy'n cwestiynu. Defnyddir y + (a mwy) yn yr acronym fel llaw fer i gynnwys a chydnabod termau amrywiol eraill y mae pobl yn uniaethu â hwy ac yn eu defnyddio i ddisgrifio eu hunaniaethau a'u cyfeiriadedd, gan gynnwys pobl ryngryw, arywiol ac aramantaidd.

**Nam**

Mae nam yn golygu anaf, afiechyd, cyflwr iechyd meddwl neu gorfforol, niwrowahaniaeth, defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, neu nodwedd a brofir gan rywun. Efallai y bydd neu na fydd yn para trwy gydol eu hoes ac efallai y bydd neu na fydd yn digwydd o ganlyniad i afiechyd neu anaf. Gall effeithio ar ymddangosiad person a/neu'r ffordd y mae'n gweithredu neu'n cyfathrebu, a/neu gall achosi ystod o anawsterau, gan gynnwys poen a blinder.

**Pobl ethnig leiafrifol**

Dyma'r term byrrach am 'Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol' a'r ddau yma yw'r termau a ffefrir yn dilyn trafodaethau gyda Grŵp Llywio Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

**Rhyw**

Mae hyn yn cyfeirio at y newidyn deuaidd sy'n cael ei gategoreiddio fel benyw a gwryw. Yn y Deyrnas Unedig, cofnodir rhyw cyfreithiol unigolyn adeg eu geni yn seiliedig ar archwiliad o'u nodweddion biolegol gan weithiwr meddygol proffesiynol. Nid yw rhywedd rhai pobl bob amser yn cyd-fynd â'r rhyw a aseiniwyd iddynt adeg eu geni na'u nodweddion biolegol.

**Rhywedd**

Mae rhywedd yn derm a ddefnyddir i gyfeirio at ymdeimlad rhywun â hwy eu hunain a all gynnwys benywaidd, gwrywaidd neu anneuaidd. Nid yw rhywedd rhywun bob amser yn cyd-fynd â'r rhyw a aseiniwyd iddynt adeg eu geni. Gellir defnyddio'r term hwn hefyd yng nghyd-destun mynegiant rhywedd neu hunaniaeth rhywedd.

**SYG**

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Unedau Tystiolaeth**

Yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd

# Cyflwyniad a'r cefndir

## Cyd-destun polisi

Un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau' (Llywodraeth Cymru, 2024). O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei Hamcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol bob pedair blynedd (Llywodraeth y DU, 2010). Diweddarwyd y rhain ym mis Mawrth 2024 ac maent yn darparu'r sylfaen ar gyfer ein gwaith i ddileu anghydraddoldeb, hybu cydraddoldeb, a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl. Mae'r Rhaglen Lywodraethu gyfredol yng Nghymru wedi gwneud ymrwymiad i 'sicrhau tegwch i bawb a dileu anghydraddoldeb ym mhob rhan o gymdeithas' (Llywodraeth Cymru, 2022). I benderfynu a yw Llywodraeth Cymru'n llwyddo yn yr ymrwymiadau hyn, mae angen tystiolaeth ar ystod o fesurau y gellir ei dadansoddi wedyn yn ôl nodweddion gwarchodedig a nodweddion cysylltiedig.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn nodi naw nodwedd warchodedig, sef: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil (gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol), crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol (Llywodraeth y DU, 2010). Mae strategaeth yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hil a'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Anabledd yn nodi pwysigrwydd ystod o 'nodweddion cysylltiedig' a all hefyd ymwneud ag anfanteision y mae pobl yn eu profi ledled Cymru megis cefndir a statws economaidd-gymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2022). Trwy gasglu tystiolaeth yn ôl nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig a'i dadansoddi ar lefel fwy gronynnog, bydd Llywodraeth Cymru'n cael darlun mwy eglur i ddangos a yw polisïau'n cael yr effaith a ddymunir ar draws ystod o grwpiau cydraddoldeb.

Mae'r angen am dystiolaeth cydraddoldeb yng Nghymru wedi cael ei amlygu mewn tri adroddiad allweddol ers 2019:

- Yr Adroddiad Adolygu Rhywedd "Dweud nid Gwneud" (Llywodraeth Cymru, 2019) a argymhellodd sefydlu Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb,

- Adroddiad is-grŵp economaidd-gymdeithasol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Prif Weinidog Cymru (Llywodraeth Cymru, 2020) a argymhellodd sefydlu Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hil,
- Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 (Llywodraeth Cymru, 2021) a alwodd am sefydlu Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Anabledd.

Fe wnaeth pob un o'r adroddiadau argymhellion penodol i wella'r sail dystiolaeth ar draws grwpiau cydraddoldeb yn ogystal ag i sefydlu Unedau Tystiolaeth ar wahân i gynorthwyo llunwyr polisi gyda chasglu tystiolaeth cydraddoldeb, ei dadansoddi, adrodd arni a'i defnyddio.

Ym mis Ionawr 2022, fe sefydlodd Llywodraeth Cymru dair Uned Tystiolaeth ar wahân: Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hil ac Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Anabledd (Unedau Tystiolaeth), y mae gan bob un ohonynt ei rhaglen ac arweinydd tystiolaeth ei hun. Mae'r Unedau Tystiolaeth yn cydweithio gyda Strategaeth Tystiolaeth drosfwaol i sicrhau synergedd, effeithiolrwydd, effeithlonrwydd, a chydlyniad.

Mae cenhadaeth a gwaith yr Unedau Tystiolaeth yn cyd-daro â'r amryw gynlluniau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi eu datblygu gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Llywodraeth Cymru, 2022) a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023). Er mwyn gwerthuso cynnydd ac effaith y cynlluniau hyn tuag at Gymru sy'n Fwy Cyfartal, mae angen data gronynnog gwell. Cafodd y bylchau o ran data a thystiolaeth yng Nghymru a'r angen am ddata sy'n well, wedi'i ddadgyfuno ac yn gyson eu hamlygu gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn yr adroddiad "A yw Cymru'n Decach?" (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2023). Yn yr adroddiad mae'n datgan bod y materion hyn mewn perthynas ag ansawdd data'n golygu ei bod hi'n anodd archwilio croestoriadedd yn fanwl ar draws nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig.

Cenhadaeth yr Unedau Tystiolaeth yw gwella argaeledd, ansawdd, gronynogrwydd, a hygyrchedd tystiolaeth am unigolion â nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig i ddeall yn llawn beth yw lefel a mathau'r anghydraddoldebau ledled Cymru. Adnabu'r Unedau Tystiolaeth yr angen i adolygu addasrwydd y data cydraddoldeb

sydd ar gael ar hyn o bryd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (Yr Arolwg Cenedlaethol) gan ei fod yn un o'r prif arolygon sy'n canolbwyntio ar Gymru yn unig.

## Arolwg cenedlaethol cymru

Yr Arolwg Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2023) yw'r prif arolwg cymdeithasol a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru ar draws pobl 16 oed a throsodd yng Nghymru. Ei nod yw casglu gwybodaeth y mae ei hangen i ategu penderfyniadau polisi fel bod y canlyniadau'n gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd yng Nghymru. Mae'r arolwg yn cwmpasu ystod eang o bynciau gan gynnwys addysg, ymarfer corff, iechyd, gofal cymdeithasol, defnyddio'r rhyngrwyd, cydlyniad cymunedol, llesiant, cyflogaeth, a materion ariannol. Mae'r pynciau'n newid yn rheolaidd i aros gyfuwch â'r anghenion esblygol am wybodaeth wrth lunio polisïau.

Dylunnir a goruchwylir yr arolwg gan dîm bach yn Llywodraeth Cymru. Dechreuodd yn 2012 ac o 2016 fe'i cyfunwyd ag Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru, yr Arolwg Oedolion Egnïol, ac Arolwg Iechyd Cymru. Cafodd gwaith maes yr arolwg ei gyflawni gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) rhwng 2016 a 2023. Dyfarnwyd contract newydd i Verian o 2023 ymlaen, ac i ganiatáu digon o amser i'r arolwg gael ei sefydlu gyda'r contractwr newydd, ni wnaed unrhyw waith maes yn ystod 2023 i 2024. Mae disgwyl rhyddhau'r flwyddyn nesaf o ganlyniadau'r arolwg, a fydd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, ym mis Gorffennaf 2025.

Hyd at fis Mawrth 2020, roedd yr arolwg yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb (CAPI), a oedd yn cynnwys adran hunan-gyfweld â chymorth cyfrifiadur (CASI), gyda'r cyfweliad ar y cyfan yn para 45 munud ar gyfartaledd ac yn samplu oddeutu 12,000 o bobl bob blwyddyn. Ym mis Mawrth 2020, oherwydd sefyllfa'r coronafeirws (COVID-19), fe ataliwyd cyfweliadau wyneb-yn-wyneb, ac fe ail-ddyluniwyd yr arolwg i gael ei gynnal dros y ffôn o fis Mai 2020 ymlaen. Yn 2021 i 2022 fe barhawyd i gynnal yr arolwg dros y ffôn, er ei fod ychydig yn fyrrach (35 munud) na'r arolwg wyneb-yn-wyneb blaenorol. Gan bod hyn wedi arwain at nifer o gyfyngiadau megis llai o gynnwys a materion o ran y gallu i ofyn cwestiynau sensitif a oedd wedi'u bwriadu ar gyfer hunan-gwblhau, fe gynhaliwyd treial ar-lein rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Mawrth 2022 gydag is-sampl a ddewiswyd ar hap o 2,000 o ymatebwyr dros y ffôn.

Gofynnwyd i ymatebwyr yn y treial ar-lein gwblhau'r holiadur ffôn safonol, gyda holiadur ar-lein ychwanegol yn dilyn wedyn a hwnnw'n cynnwys pynciau mwy sensitif a oedd yn fwy addas ar gyfer hunan-gwblhau. Cafodd y treial ar-lein ei redeg yn llwyddiannus, ac fe gyflwynwyd yr holiadur ar-lein i'r holl ymatebwyr ar gyfer 2022 i 2023. Roedd arolwg 2024 i 2025 yn dal i gynnwys cyfweliad dros y ffôn gydag adran ar-lein ddilynol, ynghyd ag ymweliadau â chyfeiriadau pobl nad oeddent wedi ymateb. Fodd bynnag, ar gyfer cyfeiriadau yr ymwelir â hwy, fe ychwanegwyd opsiwn ar gyfer cyfweliad wyneb-yn-wyneb yn y cartref.

Mae'r ystod o bynciau a gwmpesir ym mhob un o flynyddoedd yr arolwg yn amrywio er mwyn diwallu amrywiaeth eang o anghenion polisi. Ceir cwestiynau Craidd sy'n sefydlog ac yn cael eu hailadrodd bob blwyddyn ac sy'n bennaf yn cwmpasu cwestiynau am ddemograffeg a chyfansoddiad aelwydydd. Mae cwestiynau a ddefnyddir i fesur cynnydd yn erbyn dangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu gofyn yn rheolaidd, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu cynnwys yn yr arolwg bob yn ail flwyddyn. Mae'r holl bynciau eraill yn cael eu cynnwys ar sail ad hoc ac yn cael eu cynnwys mewn amrywiaeth o fformatau: gofynnir rhai dim ond am un flwyddyn, rhan o flwyddyn, i is-sampl fach, dros ddwy flynedd, neu bob yn ail flwyddyn. Ceir y patrymau cynnwys hyn o ganlyniad i gost, anghenion polisi, ac i gadw hyd y cyfweliad yn hydrin a heb fod yn rhy feichus i ymatebwyr. Mae arolygon cymdeithasol ar raddfa fawr yn nodweddiadol yn ei chael hi'n haws cael ymateb gan rai grwpiau na'i gilydd (e.e. pobl heterorywiol o'u cymharu â phobl LHDTC+), ac fe adlewyrchir yr un materion hynny yn y sampl a gyflawnir gan yr Arolwg Cenedlaethol.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth y mae ei hangen ar gyfer 16 o Ddangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Defnyddir y Dangosyddion Cenedlaethol hyn i fesur pa mor dda y mae Cymru'n cyflawni ei hymrwymiadau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae hyn yn cynnwys mesur cynnydd tuag at y 7 nod llesiant a nodir yn y Ddeddf:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach

- Cymru sy’n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Nid yw’r holl gwestiynau a ddefnyddir i adrodd yn erbyn y Dangosyddion Cenedlaethol yn cael eu gofyn i’r sampl gyfan, gyda rhai’n cael eu gofyn i is-sampl. Caiff blynyddoedd yr arolwg pan ofynnwyd cwestiynau mewn perthynas â phob Dangosydd Cenedlaethol eu rhestru yn atodiad D.

Mae’r holl Gynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol ymgorffori ystyriaethau i gydraddoldeb ym mhob agwedd ar waith llunio a chyflawni polisïau Llywodraeth Cymru. Felly mae’n bwysig dadansoddi’r Dangosyddion Cenedlaethol yn ôl ystod ehangach o nodweddion gwarchodedig ac i lefel fwy gronynnog er mwyn i Gymru ddeall a yw’n cyrraedd y nod Cymru sy’n Fwy Cyfartal. Yn ei dro, mae angen hyn i asesu a yw Cymru’n gwireddu ei gweledigaethau yn y Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau (Llywodraeth Cymru, 2020), Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun LHDTC+ a’r Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl sydd ar ddod (Hutt, J., 2023).

Nid yw meintiau’r samplau mewn arolygon wastad yn ddigon mawr i adrodd arnynt yn ôl nodweddion gwarchodedig, ac yn aml mae’n rhaid cywasgu grwpiau lleiafrifol yn grwpiau lefel-uchel i allu adrodd ar ganlyniadau (gweler, er enghraifft, adran 3.31 ar Ethnigrwydd). Mae hyn yn adlewyrchu cyfansoddiad poblogaeth Cymru. Gallai cydgrynhoi grwpiau lleiafrifol guddio gwahaniaethau sy’n bodoli rhwng pobl mewn grwpiau gwahanol ac felly nid yw’n darparu darlun manwl o anghydraddoldebau ar gyfer y grwpiau hyn.

Gan bod yr Arolwg Cenedlaethol yn un o’r prif ffynonellau ar gyfer casglu data ar y Dangosyddion Cenedlaethol, mae angen cyflwyno dadansoddiadau yn ôl grwpiau cydraddoldeb i amlygu anghydraddoldebau sy’n bodoli. Mae’r angen am ddata cydraddoldeb gronynnog yn yr Arolwg Cenedlaethol yn arbennig o bwysig ar gyfer meysydd polisi nad ydynt yn (neu nad ydynt yn gallu) ariannu ymchwil a thystiolaeth ar wahân, ac sydd felly’n dibynnu ar yr Arolwg Cenedlaethol am dystiolaeth.

## Tasglu data cynhwysol

Ym mis Hydref 2020, fe wnaeth Ystadegydd Cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ffurfio'r Tasglu Data Cynhwysol (IDTF) er mwyn ceisio sicrhau bod tystiolaeth ledled y DU yn adlewyrchu ac yn cynnwys pawb. Cyhoeddwyd adroddiad ar yr argymhellion 'Gadael neb ar ôl – Sut y gallwn fod yn fwy cynhwysol yn ein data?' (Awdurdod Ystadegau'r DU, 2021) ym mis Gorffennaf 2021 a hwnnw'n cynnwys 8 argymhelliad allweddol (Awdurdod Ystadegau'r DU, 2021):

- creu amgylchedd o ymddiriedaeth a dibynadwyedd,
- defnyddio dull system gyfan cydweithredol o wella seilwaith data'r DU,
- sicrhau bod gwybodaeth am grwpiau'n cael ei chasglu mewn modd cadarn,
- sicrhau bod digon o ddata ar gael ar gyfer dadgyfuno a dadansoddi croestoriadol cadarn a dibynadwy,
- sicrhau bod cysyniadau'n briodol ac yn eglur,
- ehangu'r ystod o ddulliau a chreu dulliau newydd i ddeall profiadau pawb,
- adolygu safonau wedi'u cysoni gan addasu'n rheolaidd i normau cymdeithasol ac anghenion esblygol,
- sicrhau bod data a thystiolaeth ar lefel y DU yr un mor hygyrch i bawb.

Os cânt eu rhoi ar waith yn llawn, mae'r SYG yn datgan y bydd yr argymhellion hyn 'yn helpu i ddwyn y newid sylweddol y mae ei angen yng nghynwysoldeb data a thystiolaeth ar lefel y DU'. Yn dilyn hyn, datblygwyd cynllun gweithredu (Awdurdod Ystadegau'r DU, 2022) ym mis Ionawr 2022 gyda mentrau yn yr arfaeth ar draws system ystadegol y DU gan gynnwys cynllun gwaith cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS) (Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, 2022). Bydd nifer o safonau wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth a ddatblygwyd o'r cynllun gwaith yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â chwestiynau am nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig yn yr Arolwg Cenedlaethol. Mae'r cwestiynau hyn wedi cael eu diwygio trwy gydol y blynyddoedd yn yr Arolwg Cenedlaethol i gyd-fynd â safonau wedi'u cysoni (lle y bo'n briodol i ddiwallu anghenion defnyddwyr yng Nghymru).

## Nodau ac amcanion

Nodau'r prosiect hwn fu:

- asesu i ba raddau y mae’r Arolwg Cenedlaethol yn cynrychioli, ac y gellid ei ddefnyddio i fesur, canlyniadau arolwg ar gyfer grwpiau cydraddoldeb yng Nghymru; a
- gwneud argymhellion ynghylch sut i wella ansawdd a gronynogrwydd data cydraddoldeb a gesglir mewn iteriadau o'r arolwg hwn yn y dyfodol.

Prif amcanion yr ymchwil oedd:

- ystyried defnyddioldeb yr Arolwg Cenedlaethol ar ei ffurf bresennol ar gyfer adrodd ar grwpiau cydraddoldeb yng Nghymru,
- gwneud gwaith dadansoddi i bennu i ba raddau y mae cyfuno data Arolwg Cenedlaethol Cymru dros nifer o flynyddoedd o fudd wrth ddadansoddi data o safbwynt cydraddoldeb.

## Strwythur yr adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi’i strwythuro fel a ganlyn:

- mae pennod dau’n crynhoi’r fethodoleg;
- mae pennod tri’n trafod sut y mae’r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth am nodweddion cydraddoldeb gydag adran yn rhoi sylw i bob nodwedd warchodedig: oedran, anabledd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil (hunaniaeth genedlaethol ac ethnigrwydd), crefydd neu gred, rhyw, ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Ceir adran hefyd sy’n rhoi sylw i statws economaidd-gymdeithasol. Caiff data ar gyfer pob nodwedd ei archwilio er mwyn cymharu’r wybodaeth am nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig a gesglir rhwng yr Arolwg Cenedlaethol a’r Cyfrifiad;
- mae pennod pedwar yn crynhoi’r canfyddiadau ar ôl ystyried a all gwaith dadansoddi cyfunol ar bedwar Dangosydd Cenedlaethol sydd wedi’u cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol fod yn ddefnyddiol i ddeall canlyniadau’r arolwg ar gyfer grwpiau cydraddoldeb;
- mae pennod pump yn darparu’r casgliadau a’r argymhellion yn dilyn yr adolygiad o ddata cydraddoldeb yn Arolwg Cenedlaethol Cymru.

# Dull

## Adolygiad o gwestiynau'r arolwg

Cynhaliwyd adolygiad o gwestiynau'r arolwg i asesu i ba raddau y gellir defnyddio'r Arolwg Cenedlaethol i fesur canlyniadau ar gyfer grwpiau cydraddoldeb yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys adolygu'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr arolwg yn ei gyfanrwydd a pha un a yw'n casglu gwybodaeth am brofiadau'r rhai o grwpiau cydraddoldeb penodol mewn digon o fanylder ar gyfer dadansoddiadau defnyddiol.

Cafodd y cwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol sy'n mesur nodweddion gwarchodedig eu hadolygu i asesu a ydynt yn casglu gwybodaeth yn effeithiol am y grwpiau y mae pobl yn uniaethu â hwy ac i ddarparu gwybodaeth ynghylch sut y gellid eu datblygu i gael dealltwriaeth well am brofiadau'r rhai o grwpiau cydraddoldeb yng Nghymru.

Cynhaliwyd adolygiad o'r maint sampl a gyflawnwyd ar gyfer cwestiynau mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig, i gael dealltwriaeth well am fanwl gywirdeb dadansoddiadau yn ôl grwpiau cydraddoldeb. Fe ddygwyd cymariaethau â data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru i amcangyfrif pa mor gynrychiolaidd yw'r arolwg ac ystyried ei ddefnyddioldeb ar ei ffurf bresennol ar gyfer grwpiau cydraddoldeb yng Nghymru.

## Dadansoddi data cyfunol

Roedd ail ran y dadansoddiad yn cynnwys cyfuno pedair blynedd o ddata'r Arolwg Cenedlaethol (2016 i 2017 i 2019 i 2020) i ganfod i ba raddau y mae cyfuno data o fudd wrth ddadansoddi canlyniadau'r arolwg o safbwynt cydraddoldeb. Cyfunwyd y data i gynyddu maint y sampl, gwella manwl gywirdeb amcangyfrifon a phenderfynu i ba raddau y mae cyfuno'n ychwanegu gwerth at waith dadansoddi o safbwynt cydraddoldeb.

Fe wnaeth cyfuno pedair blynedd o ddata'r arolwg gynyddu maint y sampl sylfaenol ar gyfer dadansoddi o oddeutu 12,000 o ymatebwyr i 46,000. Nid yw'n bosibl cyfuno mwy na phedair blynedd o ddata oherwydd y newidiadau i ddull yr arolwg yn ystod ac ar ôl y pandemig. Felly, dyma'r uchafswm o ran nifer y blynyddoedd o ddata'r arolwg y gellir eu cyfuno ar hyn o bryd.

Dadansoddwyd detholiad o Ddangosyddion Cenedlaethol yn ôl pob nodwedd i archwilio pa un a ellid cynhyrchu ffigyrau â manwl gywirdeb derbyniol ar gyfer y grwpiau o ddiddordeb. Rhannwyd y data ar hyd dau ddimensiwn gwahanol. Yn gyntaf, yn ôl nifer y blynyddoedd o ddata cyfunol ac yn ail, yn ôl manwl gywirdeb data cydraddoldeb ar gyfer pob is-grŵp.

Fe wnaed gwaith dadansoddi ar y pedwar Dangosydd Cenedlaethol canlynol a gaiff eu mesur gan yr Arolwg Cenedlaethol:

1) Canran yr oedolion sydd â dau neu fwy o'r ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw (rhif 03),
2) Y ganran o'r oedolion sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol (rhif 19),
3) Y ganran o'r oedolion sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg (rhif 36),
4) Y ganran o'r oedolion sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos (rhif 38).

Dewiswyd y Dangosyddion Cenedlaethol hyn i'w dadansoddi am bod y cwestiynau a ddefnyddir i'w deillio wedi cael eu gofyn ym mhob un o bedair blynedd yr arolwg (2016 i 2017 i 2019 i 2020), gan roi'r sampl gyfunol fwyaf posibl fel sail. Ceir Dangosyddion Cenedlaethol eraill a gaiff eu mesur gan yr Arolwg Cenedlaethol, ond am nad yw data'n cael ei gasglu bob blwyddyn ni chafodd y rhain eu cynnwys yng nghwmpas y dadansoddiad. Er yr adroddir yn flynyddol fel arfer ar ddata ar gyfer y Dangosyddion Cenedlaethol a ddadansoddir yma, ceir bylchau mewn tystiolaeth ar gyfer blwyddyn arolwg 2020 i 2021 oherwydd effaith pandemig Covid-19 ar ddyluniad yr arolwg. Er enghraifft, yn 2020 i 2021 ni chasglwyd gwybodaeth am amddifadedd materol ac ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw, ac ar gyfer y Gymraeg a chyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon mae'r canlyniadau'n seiliedig ar faint sampl mwy cyfyngedig nag ar gyfer blynyddoedd eraill.

Dadansoddir y data, lle y bo'n bosibl, yn ôl nodweddion cydraddoldeb gan gynnwys y rhai a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion a ddadansoddir yn cynnwys oedran, ethnigrwydd, statws priodasol a phartneriaeth sifil, math o aelwyd, beichiogrwydd, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a pha un a

yw rhywun yn anabl neu beidio. Amcangyfrifir cyfrannau gan ddefnyddio pwysiadau tebygolrwydd ar gyfer samplau a gynhwysir yn set ddata'r Arolwg Cenedlaethol. Mae pwysiadau'r samplau'n rhoi cyfrif am orsamplu rhai grwpiau penodol yn y boblogaeth ac am samplu haenog yn ôl y 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Cyflwynir amcangyfrifon ochr yn ochr â meintiau samplau ac adroddir ar gyfyngau hyder o 95% i ddangos lefel yr anfanylder yn yr amcangyfrifon canolog. Mae cyfyngau hyder yn rhoi ystod y mae'r 'gwir' werth ar gyfer y boblogaeth yn debygol o berthyn iddi. Ceir tebygolrwydd o 1 mewn 20 (5%) nad yw'r cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y gwir werth. Po fwyaf fo'r cyfwng hyder, po leiaf manwl gywir fo amcangyfrif. Yn y dadansoddiad isod, dangosir cyfyngau hyder fel bariau cyfeiliornad ar y siartiau.

Mae amcangyfrifon â chyfyngau hyder mwy yn llai manwl gywir. Fel canllaw bras i ddehongli: wrth gymharu dau grŵp, os yw'r cyfyngau hyder (ffiniau cyfeiliornad) o amgylch yr amcangyfrifon yn gorgyffwrdd, yna gellir tybio nad oes gwahaniaeth sy'n arwyddocaol yn ystadegol rhwng yr amcangyfrifon. Os nad ydynt yn gorgyffwrdd, yna mae'n debygol y bydd gwahaniaeth sy'n arwyddocaol yn ystadegol. Mae ffiniau cyfeiliornad mwy'n lleihau defnyddioldeb yr amcangyfrifon am ei bod yn dod yn anos adnabod a oes gwahaniaeth go iawn rhwng grwpiau (un nad yw'n deillio o wall samplu yn unig).

Hefyd, wrth i ddata gael ei rannu'n grwpiau mwy gronynnog, mae meintiau samplau'n lleihau ac weithiau mae angen peidio â'u dangos. Mae amcangyfrifon yng nghyhoeddiadau'r Arolwg Cenedlaethol yn peidio â chael eu dangos fel arfer lle mae maint y sampl ar gyfer cell yn llai na 30 oherwydd y byddai'r cyfyngau hyder mewn perthynas â'r canlyniadau hyn yn fawr iawn. I gael rhagor o wybodaeth am gyfyngau hyder a chyfeiliornad mesur cyfeirier at yr Arolwg Cenedlaethol: Adroddiad ansawdd (Llywodraeth Cymru, 2024).

Mae'r dadansoddiad yn dangos bod lefel yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcangyfrifon yn newid wrth i nifer y blynyddoedd o ddata a gyfunir gynyddu ac wrth i'r data gael ei ddadgyfuno'n niferoedd uwch o gategorïau (dod yn fwy gronynnog). Trwy gynnal y dadansoddiad hwn, mae'n bosibl gweld pa mor ddefnyddiadwy a defnyddiol yw'r data cydraddoldeb.

## Aelwydydd mewn amddifadedd materol

Mae Amddifadedd Materol yn un o'r Dangosyddion Cenedlaethol a adolygir yn yr adroddiad hwn. Cyfrifir y ganran o'r oedolion sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol o ddata'r Arolwg Cenedlaethol gan ddefnyddio set safonol o gwestiynau a ofynnir bob blwyddyn. Gofynnir detholiad o gwestiynau i bawb yn y sampl naill ai o'r modiwl amddifadedd materol ar gyfer oedolion nad ydynt yn bensiynwyr neu o'r modiwl amddifadedd materol ar gyfer oedolion sy'n bensiynwyr. Mae'r cwestiynau wedi'u bwriadu i adnabod y rhai nad ydynt yn gallu fforddio nwyddau a gweithgareddau penodol sy'n nodweddiadol mewn cymdeithas ar adeg benodol. Yn ogystal â chyhoeddi'r ymatebion i'r cwestiynau unigol, mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn cyfuno'r ymatebion yn newidyn deuaidd deilliadol lle caiff ymatebwyr eu categoreiddio'n bobl sydd naill ai 'mewn amddifadedd materol' neu 'ddim mewn amddifadedd materol'.

## Oedolion sydd â dau neu fwy o'r ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw

Y pum ymddygiad iach a gynhwysir yw:

- peidio ag ysmygu
- peidio ag yfed mwy na'r hyn a bennir yn y canllawiau wythnosol (mae'n cynnwys peidio ag yfed o gwbl)
- wedi bwyta pum neu fwy o ddognau o ffrwythau a llysiau y diwrnod cynt
- wedi bod yn egnïol yn gorfforol am o leiaf 150 o funudau yn yr wythnos flaenorol
- cynnal pwysau neu fynegai màs y corff iach

Gofynnwyd cwestiynau am ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw i oddeutu hanner sampl yr arolwg ym mhob un o flynyddoedd yr arolwg ac eithrio 2016 i 2017 (pan ofynnwyd y cwestiynau hyn i'r sampl gyfan). Mae'r dadansoddiad hwn yn archwilio effaith cyfuno ac yn dilyn ymlaen o'r dadansoddiad cyfunol ychwanegol o ymddygiadau oedolion o ran ffordd o fyw yn ôl anabledd, grŵp ethnig, statws priodasol, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol a gyhoeddwyd yn 2023 (Llywodraeth Cymru, 2023).

Sylwer yr adroddwyd ar y Dangosydd Cenedlaethol cyn 2021 i 2022 fel oedolion â llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw, ond bod y mesur a gyflwynir yma'n gyson â'r dangosydd cyfredol: oedolion sydd â dau neu fwy o'r ymddygiadau iach.

### Oedolion sy'n defnyddio Cymraeg fel rhan o'u bywydau pob dydd

Mae'r Dangosydd Cenedlaethol hwn yn deillio o gwestiynau'r Arolwg Cenedlaethol a ofynnir yn flynyddol i'r sampl gyfan. Mae dwy elfen i'r dangosydd hwn. Yn gyntaf, gofynnir i ymatebwyr a ydynt yn gallu siarad Cymraeg, ac yna am eu gallu i siarad Cymraeg:

1. Siarad Cymraeg yn rhugl
2. Siarad cryn dipyn o Gymraeg
3. Siarad ychydig o Gymraeg yn unig
4. Dweud ychydig o eiriau yn unig

Cofnodir bod y rhai sy'n ymateb gan ddefnyddio un o'r tri opsiwn cyntaf yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg.

Yn ail, gofynnir i ymatebwyr a ydynt yn siarad Cymraeg 'yn ddyddiol', 'yn wythnosol', yn 'llai aml', ynteu 'byth'. Os ydynt yn siarad Cymraeg 'yn ddyddiol', ac yn siarad 'mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg' (fel a roddir gan y diffiniad uchod), fe'u cofnodir fel rhywun sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau.

### Oedolion sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos

Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran yr oedolion sy'n dweud eu bod yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd chwaraeon awyr agored neu dan do, a pha mor aml y maent yn cymryd rhan. Gofynnir y cwestiynau a ddefnyddir i fesur y dangosydd hwn yn flynyddol i'r sampl gyfan.

## Cyfyngiadau'r prosiect hwn

### Adolygu a chymharu â'r Cyfrifiad

Ni wnaeth yr adolygiad desg ystyried llenyddiaeth academaidd bresennol nac adolygu llenyddiaeth lwyd i asesu a yw'r safonau wedi'u cysoni'n casglu'r wybodaeth y maent yn bwriadu ei chasglu. Hefyd, nid oedd yr adolygiad yn

cynnwys asesiad annibynnol o’r safonau wedi’u cysoni ac ni wnaeth gymharu’r safonau wedi’u cysoni â’r hyn y mae gweinyddiaethau eraill yn ei ddefnyddio i gasglu data cydraddoldeb.

Mae cymariaethau rhwng data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 a data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru ar gyfran yr oedolion yn ôl nodwedd cydraddoldeb yn darparu peth mewnwelediad wrth ystyried i ba raddau y mae’r Arolwg Cenedlaethol yn cynrychioli poblogaeth Cymru wrth rannu’r data yn ôl grwpiau cydraddoldeb lefel-uchel. Er bod y cyfnodau ar gyfer Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 a gwaith maes Cyfrifiad 2021 wedi cyd-daro â’i gilydd, rhaid gofalu wrth ddod i gasgliadau o’r fath oherwydd bod y data’n seiliedig ar gyfnodau gwahanol ac felly na ellir ei gymharu’n uniongyrchol. Yn yr adroddiad hwn, caiff data Cyfrifiad 2021 ei drin fel data cywir; fodd bynnag, er bod maint y sampl yn fwy, bydd cyfyngiadau’n dal i fodoli o fewn y dull hwn. Rhaid nodi hefyd bod pwysau samplau’n cael eu defnyddio yn amcangyfrifon yr Arolwg Cenedlaethol i roi cyfrif am orsamplu ar lefel Awdurdodau Lleol. Defnyddir pwysau fel bod y sampl wedi’i phwysoli’n adlewyrchu nodweddion eang y boblogaeth ym mhob Awdurdod Lleol.

Er mai hunan-adrodd yn aml yw’r dull mwyaf effeithiol o gasglu data nodweddion gwarchodedig, ceir materion o hyd gyda data hunan-adrodd megis cyfranogwyr yn camddeall cwestiynau neu duedd ymateb a all arwain at danadrodd neu oradrodd mewn rhai categorïau ac a allai fod yn wir yn yr Arolwg Cenedlaethol. Mae'r gallu i gasglu gwybodaeth am unrhyw grwpiau bychain yn y boblogaeth mewn arolwg cymdeithasol sy’n defnyddio sampl a ddewisir ar hap yn gyfyngedig hefyd, yn enwedig pan ofynnir i niferoedd llai o bobl.

## Dadansoddiad cyfunol

Roedd y dadansoddiad cyfunol yn cynnwys dim ond y pedwar Dangosydd Cenedlaethol sy’n seiliedig ar gwestiynau a ofynnwyd bob blwyddyn rhwng 2016 i 2017 a 2019 i 2020. Mae hyn yn golygu nad yw’r dadansoddiad yn adnabod nac yn archwilio heriau ychwanegol mewn perthynas â dadansoddi cydraddoldeb a all fodoli ar gyfer Dangosyddion Cenedlaethol neu newidynnau eraill. Er enghraifft, mae rhai newidynnau’n seiliedig ar gwestiynau nad ydynt yn cael eu gofyn bob blwyddyn neu nad ydynt ond yn cael eu gofyn i israniad bach o gyfanswm y sampl.

Mae'r dadansoddiad cyfunol yn defnyddio data o flynyddoedd yr arolwg cyn y pandemig ac nid yw'n adlewyrchu tueddiadau diweddar o anghenraid. Nid oedd hi'n bosibl cyfuno data sy'n rhychwantu pandemig Covid-19 oherwydd newidiadau yn null yr arolwg yn ystod ac ar ôl y pandemig. Mae'r data cyfunol yn canolbwyntio ar allu'r data cyfunol ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2016 i 2017 a 2019 i 2020 i ddarparu dadansoddiadau o gydraddoldeb â manwl gywirdeb derbyniol ac nid yw'n archwilio'r dull samplu nac opsiynau ar gyfer cynyddu neu hybu'r sampl. Gall cyfuno data dros amser dybio na fu unrhyw newid sylfaenol ar draws y cyfnod, neu ei bod hi'n dderbyniol celu'r newid hwnnw felly dylid archwilio hyn ymhellach mewn ymchwil yn y dyfodol.

Nid oedd hi'n bosibl archwilio mathau o nam o fewn cwmpas y dadansoddiad. Y rheswm dros hyn oedd y byddai newidyn ar gyfer math o nam wedi bod yn gymhleth i'w ddeillio heb unrhyw ddull sefydledig gyda sicrwydd ansawdd o greu categorïau cyfanredol o'r ymatebion a ysgrifennwyd i mewn. Nid oedd hi'n bosibl ychwaith deillio newidyn ar 'statws mudwr' oherwydd bod hyn yn dibynnu ar wybodaeth am wlad enedigol ymatebydd nad yw wedi bod yn cael ei chasglu yn yr Arolwg Cenedlaethol ers 2014-15. Mae angen archwilio'r ddau o'r rhain ymhellach mewn ymchwil yn y dyfodol.

# Adolygiad o'r arolwg: Sut y cesglir gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig a nodweddion cysylltiedig a sut y mae'n cymharu â data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru

Mae'r bennod hon yn nodi sut y mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu data ar grwpiau cydraddoldeb gwahanol yng Nghymru. Mae'n rhestru'r cwestiynau ac opsiynau ymateb a gynhwyswyd yn arolwg 2022 i 2023. Caiff y cwestiynau eu cymharu â'r safonau wedi'u cysoni, neu unrhyw ddewisiadau eraill, ac mae'r bennod yn ystyried a yw'r cwestiynau'n ateb unrhyw ofynion ychwanegol yn effeithiol, e.e. yn dilyn diffiniadau cyfreithiol neu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru. Caiff cyfrannau pwysedig yn ôl nodweddion cydraddoldeb eu cymharu â'r cyfrannau yn ôl nodweddion cydraddoldeb yn nata Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru.

Mae cryn dipyn o'r dadansoddi a gynhwysir yn y bennod hon yn galw am grwpio is-grwpiau bychain gyda'i gilydd i allu dadansoddi'r data ar gyfer pob grŵp cydraddoldeb cyfanredol. Er bod y dull hwn yn cynyddu maint y sampl i'w gwneud yn bosibl gwneud gwaith dadansoddi manylach, mae'n cyfyngu ar y gallu i ddeall y gwahaniaethau a'r anghydraddoldebau sy'n bodoli o fewn y grŵp cyfanredol.

## Nodweddion gwarchodedig

### Oedran

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth am oedran unigolion trwy ofyn:

> 'Beth yw [eich] dyddiad geni [Enw]?'
> Os gwrthodir hyn, mae'r arolwg wedyn yn gofyn y canlynol i ymatebwyr:
> 'Beth oedd [eich] oed [Enw] ar [eich pen-blwydd/ei ben-blwydd/ei phen-blwydd] diwethaf?'
> Os gwrthodir hyn hefyd, yna gofynnir i gyfwelwyr roi eu hamcangyfrif gorau.

Wedyn caiff ymatebwyr eu cydgrynhoi mewn grwpiadau categori oedran amrywiol at ddibenion adrodd. Y dadansoddiad mwyaf manwl o oedran sydd wedi'i gynnwys yn y set ddata yw saith categori oedran (16 i 24; 25 i 34; 35 i 44; 45 i 54; 55 i 64; 65 i 74; a 75 a throsodd), er y cesglir gwybodaeth am yr union oedran fel bod unrhyw

grwpiadau oedran yn gallu cael eu deillio. Mae'r dadansoddiad cyfunol o ddata Dangosyddion Cenedlaethol yn ôl nodweddion gwarchodedig a nodir ym Mhennod 3 yn defnyddio'r grwpiad saith oedran.

Y grwpiad oedran a ddefnyddir yn fwyaf mynych yw'r pum grŵp oedran 16 i 24, 25 i 44, 45 i 64, 65 i 74, a 75 a throsodd. Mae Tabl 1 yn dangos bod cyfran yr ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 yng ngrwpiau oedran 25 i 44, 45 i 64, a 75 a throsodd yn debyg yn fras i boblogaethau'r grwpiau oedran a welwyd yn nata Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, roedd cyfran yr ymatebwyr 16 i 24 oed yn amlwg yn is nag yng Nghyfrifiad 2021 ac roedd cyfran yr ymatebwyr 65 i 74 oed yn amlwg yn uwch.

**Tabl 1: Canran y bobl 16 oed a throsodd yn ôl grŵp oedran, gan gymharu data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 â data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru**

| Grŵp oedran | Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 | Cyfrifiad 2021 (Cymru) |
|---|---:|---:|
| 16 i 24 | 4% | 13% |
| 25 i 44 | 23% | 29% |
| 45 i 64 | 34% | 32% |
| 65 i 74 | 22% | 14% |
| 75 a throsodd | 16% | 12% |

**Disgrifiad o Dabl 1**

Dengys Tabl 1 fod cyfran yr oedolion 16 oed a throsodd yng ngrwpiau oedran 25 i 44, 45 i 64 a 75 a throsodd yn debyg yn fras yn ôl data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 a Chyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru. Yn 2021 i 2022, roedd 4% o ymatebwyr i'r Arolwg Cenedlaethol yn 16-24 oed o'i gymharu ag 13% yng Nghyfrifiad 2021, tra bo 22% o ymatebwyr i'r Arolwg Cenedlaethol yn 65-74 o'i gymharu ag 14% yng Nghyfrifiad 2021.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru

Nodiadau:

1: Mae maint sampl Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 yn 12,580

## Anabledd

Mae'r dull a ddefnyddir yn yr Arolwg Cenedlaethol i gasglu data ar bobl anabl yn cyd-fynd yn agos â diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) (Llywodraeth y DU, 2021) o 'anabledd'. Yn ôl y diffiniad hwn, mae pobl sy'n hunanasesu y cyfyngir ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd gan gyflwr iechyd neu salwch corfforol neu feddyliol hirdymor yn cael eu hystyried yn anabl. Goleuir hyn gan y model meddygol o anabledd (Scope, 2024) sy'n diffinio pobl fel pobl anabl oherwydd eu nam. Yn 2002 fe fabwysiadodd Llywodraeth Cymru y model cymdeithasol o anabledd (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae'r model hwn yn nodi ffordd wahanol o ystyried pobl anabl – yn hytrach na diffinio pobl fel pobl anabl oherwydd eu nam, mae pobl â namau wedi eu hanablu gan rwystrau corfforol, agweddol a sefydliadol a grëwyd gan gymdeithas (Anabledd Cymru, 2024). Mae'r iaith a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, lle y bo'n bosibl, yn cyd-fynd â'r model cymdeithasol o anabledd.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn gofyn cyfres o gwestiynau i ymatebwyr a oleuir gan ddwy safon wedi'i chysoni a argymhellir gan y swyddogaeth ddadansoddi, sef y Safon wedi'i chysoni ar gyfer cyflwr iechyd a salwch hirdymor (Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth, 2020) a'r Safon wedi'i chysoni ar gyfer cyfyngiadau ar weithgareddau (Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth, 2020).

Nid yw'r safon wedi'i chysoni ar gyfer cyfyngiadau ar weithgareddau (Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth, 2020) yn cyd-fynd â'r model cymdeithasol o anabledd gan ei bod yn canolbwyntio ar y cyflwr fel y rheswm pam fo rhywun yn anabl. Gall y safon wedi'i chysoni ar gyfer cyflwr iechyd a salwch hirdymor gyd-fynd â'r model cymdeithasol, ond dim ond pan gaiff ei pharu â chwestiwn sy'n casglu gwybodaeth am y rhwystrau cymdeithasol, amgylcheddol neu agweddol hefyd. Cyfyngiad arall ar y safon wedi'i chysoni ar gyfer cyflwr iechyd a salwch hirdymor yw nad yw o bosibl yn casglu gwybodaeth am bob nam neu gyflwr megis awtistiaeth neu ddyslecsia am nad yw rhai pobl yn ystyried bod eu niwrowahaniaeth yn gyflwr iechyd neu salwch. Gallai hyn arwain at dangynrychioli'r boblogaeth niwrowahanol (Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth, 2023).

Gofynnir pedwar cwestiwn i ymatebwyr:

1. Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i chi am unrhyw gyflwr iechyd, salwch neu nam sydd gennych. Oes gennych chi unrhyw gyflwr iechyd neu salwch corfforol neu feddyliol sydd wedi para, neu sy'n debygol o bara am 12 mis neu fwy?

    Oes

    Nac oes

    Ddim yn gwybod – **digymell yn unig**

2. Pa gyflwr iechyd neu salwch [arall] sydd gennych chi?

    Cofnodwch yn llawn. Prociwch am fanylion.

    Os oes mwy nag un, dylech gofnodi un yn unig yma. Cofnodwch hyd at chwe chyflwr yn y meysydd 1-6.

    **nodwch destun**

3. A yw'r cyflwr hwn yn lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd? Ystyriwch a oes unrhyw effaith arnoch pan fyddwch yn cael triniaeth, cymryd meddyginiaeth, neu ddefnyddio dyfeisiau fel cymorth clyw (hearing aid).

    **Darllenwch bob ateb ar y rhestr cyn rhoi cyfle i'r ymatebydd ateb**

    Ydy, yn fawr,

    Ydy, ychydig, neu

    Na, dim o gwbl?

    Ddim yn gwybod – **digymell yn unig**

4. Hoffech chi gofnodi unrhyw gyflwr iechyd neu salwch corfforol neu feddyliol arall?

    Hoffwn

    Na hoffwn

Os yw ymatebydd yn ateb hoffwn i'r pedwerydd cwestiwn, yna fe ailadroddir y cwestiynau. Gall y cyfwelydd gofnodi uchafswm o chwe chyflwr. Wedyn fe ddeillir newidyn i fesur a oes gan yr unigolyn salwch, anabledd neu eiddilwch hirdymor cyfyngol sy'n lleihau eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Dengys data'r Arolwg Cenedlaethol ar gyfer 2021 i 2022 fod gan 39% o ymatebwyr 16 oed a throsodd gyflwr iechyd neu salwch hirdymor a oedd yn cyfyngu ar eu

gweithgareddau o ddydd i ddydd (yn cael eu hystyried yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)). Mae'r gyfran hon yn uwch na data diweddaraf Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023) sy'n nodi bod cyfran yr oedolion anabl 16 oed a throsodd yng Nghymru'n 25%.

Mae'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd wedi contractio ymchwil i archwilio sut y gellir casglu data arolwg i adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd ac i ddatblygu cwestiynau am namau a rhwystrau sy'n anablu. Unwaith y bydd canfyddiadau'r prosiect ymchwil hwn ar gael, dylid ystyried cwestiynau sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol i'w cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol. Dylai'r rhain fod ochr yn ochr â chwestiynau nad ydynt yn cyd-fynd (neu sy'n cyd-fynd yn rhannol yn unig) â'r model cymdeithasol.

## Priodas a phartneriaeth sifil

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth am briodas a phartneriaeth sifil trwy ofyn:

**Gofynnwch neu codiwch**: Ydych chi'n / Ydy [Enw] yn …

**Os oes angen:** Rydym yn gofyn hyn fel y gallwn lunio canlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Fel eich holl atebion, dim ond ar gyfer ymchwil y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio ac ni fydd byth modd eich adnabod o'r canlyniadau.

**Darllenwch bob ateb yn ei dro – codiwch y cyntaf sy'n berthnasol**

**Gwiriad meddal – os codau 4-9 a bod yr ymatebydd dan 18**: "Gwiriwch eich bod wedi dewis yr opsiwn cywir o ystyried bod yr ymatebydd dan 18 oed."

- Erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil?
- Yn briod?
- Mewn partneriaeth sifil gofrestredig?
- Yn briod ond wedi gwahanu?
- Wedi ysgaru?
- Yn weddw?
- Mewn partneriaeth sifil a gydnabyddir yn gyfreithiol ond wedi gwahanu – **digymell yn unig**
- Wedi bod mewn partneriaeth sifil sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol - **digymell yn unig**

- Wedi colli partner sifil trwy Farwolaeth - **digymell yn unig**

Gan bod pob ateb yn cael ei ddarllen yn ei dro, wrth ofyn y cwestiwn hwn bydd y cyfwelydd yn darllen pob opsiwn ymateb mewn trefn nes bod yr ymatebydd yn rhoi ateb cadarnhaol. Felly, mewn rhai achosion, efallai mai dim ond yr opsiwn ymateb cyntaf y bydd yn rhaid i'r cyfwelydd ei ddarllen. Gall yr ymatebydd ateb yn ddigymell mewn tair ffordd arall, ond nid yw'r cyfwelydd yn darllen y rhain iddynt.

Mae'r categorïau ymateb yn yr Arolwg Cenedlaethol yn cyfateb i raddau helaeth i safon wedi'i chysoni'r swyddogaeth ddadansoddi ar gyfer statws priodasol a phartneriaeth sifil (Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth, 2020). Y gwahaniaeth yw bod safon wedi'i chysoni'r Swyddogaeth Ddadansoddi wedi cael ei diweddaru ym mis Gorffennaf 2023 i gynnwys y gair 'yn gyfreithiol' yn yr opsiynau ymateb ar gyfer partneriaeth sifil. Maent yn haeru bod hyn yn gwneud yr opsiynau'n fwy eglur i'r ymatebydd (h.y. maent yn cyfeirio at statws priodasol cyfreithiol ac nid statws perthynas, megis cyd-fyw) gyda'r nod o leihau ymatebion anghywir. Roedd tîm yr Arolwg Cenedlaethol yn gyfranwyr gweithredol i'r diweddariad hwn. Fodd bynnag, gan bod y diweddariad wedi cael ei wneud pan oedd gwaith maes ar gyfer Arolwg Cenedlaethol 2022 i 2023 eisoes wedi dechrau, cafodd y newid hwn ei gymhwyso ar gyfer y flwyddyn arolwg nesaf oedd ar gael (2024 i 2025).

Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn briod, yn briod ond wedi gwahanu; neu wedi ysgaru yn nata Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 i gyd yn debyg yn fras i'r grwpiau cyfatebol yng Nghyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, nid oedd 37% o bobl 16 oed a throsodd erioed wedi bod yn briod nac wedi cofrestru partneriaeth sifil yn ôl Cyfrifiad 2021 o'i gymharu â 27% o ymatebwyr yn Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022. Roedd cyfran uwch o ymatebwyr 16 oed a throsodd yn weddw yn nata Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 (13%) o'i gymharu â Chyfrifiad 2021 (7%). Sylwer bod meintiau'r arolwg yn rhy fach i adrodd ar y tri grŵp 'digymell yn unig' yn yr Arolwg Cenedlaethol, a bod cyfrannau'r bobl yn y grwpiau hyn yng Nghyfrifiad 2021 yn isel iawn hefyd (0% pan gânt eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf).

**Tabl 2: Canran y bobl 16 oed a throsodd yn ôl statws partneriaeth sifil a phriodasol cyfreithiol, gan gymharu data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 â data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru**

| Statws partneriaeth sifil neu briodasol cyfreithiol | Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 | Cyfrifiad 2021 (Cymru) |
|---|---|---|
| Erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil | 27% | 37% |
| Yn briod | 45% | 44% |
| Mewn partneriaeth sifil | 0% | 0% |
| Yn briod ond wedi gwahanu | 3% | 2% |
| Wedi ysgaru | 12% | 10% |
| Yn weddw | 13% | 7% |

**Disgrifiad o Dabl 2**

Dengys Tabl 2, yng Nghymru, yn ôl data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru, fod 37% o bobl 16 oed a throsodd erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil o'i gymharu â 27% o ymatebwyr yn Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022. Roedd cyfran uwch o ymatebwyr 16 oed a throsodd yn weddw yn nata Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 (13%) o'i gymharu â Chyfrifiad 2021 (7%). Roedd cyfrannau'r ymatebwyr a oedd yn briod, yn briod ond wedi gwahanu; neu wedi ysgaru yn nata Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 i gyd yn debyg yn fras i Gyfrifiad 2021.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru

Nodiadau:

1: Mae maint sampl Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 yn 12,580

2: Mae'r ffigyrau wedi cael eu talgrynnu i 0 lle degol.

3. Ym mis Rhagfyr 2019, diweddarwyd y Ddeddf Partneriaeth Sifil (2004) fel bod cyplau o'r un rhyw hwythau'n gallu ffurfio partneriaethau sifil. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y partneriaethau sifil a ffurfiwyd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae nifer y partneriaethau sifil a ffurfir yn flynyddol yng Nghymru'n dal i fod yn gymharol fach o'i gymharu â nifer y

priodasau – yn 2022, ffurfiwyd 277 o bartneriaethau sifil o’i gymharu ag 13,866 o briodasau (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, dim dyddiad).

## Beichiogrwydd a mamolaeth

Fel rhan o’r set o gwestiynau sy’n ymwneud â data BMI, gofynnir i ymatebwyr benywaidd:

Allwn ni wirio, ydych chi’n feichiog ar hyn o bryd?

**Os oes angen**: Gofynnir y cwestiwn yma i benderfynu a ddylid defnyddio’r cwestiynau am bwysau i gyfrifo BMI, gan bod menywod beichiog yn cael eu heithrio o'r cyfrifiadau hynny. Ydych chi’n feichiog ar hyn o bryd?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Mae’n well gen i beidio â dweud

Er bod y cwestiwn hwn ym mhob arolwg, dim ond i fenywod 16 i 54 oed a gyfeirir at yr is-sampl ‘iechyd personol’ (sy’n cynnwys oddeutu 6,000 o ymatebwyr) y caiff ei ofyn. Mae hyn yn golygu bod y sampl un flwyddyn ar gyfer y cwestiwn hwn yn llai o lawer nag a geir ar gyfer nodweddion gwarchodedig eraill.

Dangosodd y dadansoddiad cyfunol mewn perthynas â’r Dangosydd Cenedlaethol a oedd yn cyfuno data o’r blynyddoedd rhwng 2016 i 2017 a 2019 i 2020 mai oddeutu 6,500 oedd cyfanswm y sampl y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt ar draws pob un o’r pedair blynedd, a bod oddeutu 200 o fenywod a oedd yn feichiog.

Ni ofynnir yn benodol am famolaeth yn yr Arolwg Cenedlaethol, ond gellid dadansoddi data cysylltiedig yn y dyfodol fel mesur dirprwy i ddeall canlyniadau’r arolwg ar gyfer aelwydydd â theuluoedd ifainc. Er enghraifft, cesglir data ar aelwydydd sy’n cynnwys plant dan 5 oed a gellid ei archwilio fel llwybr ar gyfer dadansoddi cydraddoldeb. Hefyd, gellid dadansoddi gwybodaeth hefyd o gwestiynau ar y modiwl gofal plant wedi’i hidlo. Mae’r modiwl gofal plant yn cyfyngu ymatebwyr i’r rhai sy’n rhiant neu warcheidwad i blentyn 0 i 14 oed ar yr aelwyd. Os

oes mwy nag un plentyn ar yr aelwyd sy’n bodloni’r meini prawf hyn, yna mae sgript yr arolwg yn dethol un o blant yr ymatebwyr ar hap i seilio’u hatebion arnynt.

Nid oes safon wedi’i chysoni gan y Swyddogaeth Ddadansoddi ar gyfer beichiogrwydd a mamolaeth ar hyn o bryd ychwaith gyda dim cysondeb ar draws arolygon. Ond ceir canllawiau cysoni (Swyddogaeth Ddadansoddi’r Llywodraeth, 2020) sy’n darparu rhestr o ffynonellau lle cesglir y data yma neu lle mae ar gael.

## Hil

Nid yw’r Arolwg Cenedlaethol yn casglu data ar hil. Yn lle hynny, cesglir data ar ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol. O dan y nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) (Llywodraeth y DU, 2013), dim ond un rhan o hil yw ethnigrwydd: ‘hil gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol’. Mewn arolygon cymdeithasol, mae crefydd, hunaniaeth genedlaethol ac iaith yn aml yn cael eu dadansoddi ochr yn ochr ag ethnigrwydd i helpu i adlewyrchu natur amlweddog hil (Swyddogaeth Ddadansoddi’r Llywodraeth, 2011).

Mae gwybodaeth am y wlad enedigol weithiau’n cael ei chasglu mewn arolygon sampl ac mae’n wybodaeth a fyddai’n ei gwneud yn bosibl deillio mesur dirprwy ar fudwyr. Nid yw’n bosibl archwilio hyn fel mesur yn yr Arolwg Cenedlaethol ar hyn o bryd am nad yw’r wybodaeth wedi bod yn cael ei chasglu ers 2014-15. Mae niferoedd bychain yng Nghymru ar gyfer y rhai a aned y tu allan i Gymru neu’r DU hefyd yn golygu y byddai angen i faint sampl yr Arolwg Cenedlaethol fod yn fwy o lawer i adrodd ar y math yma o nodwedd.

Ym mis Mehefin 2022, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP) (Llywodraeth Cymru, 2022) gydag ymrwymiad i wneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (pobl ethnig leiafrifol) yng Nghymru. Trwy roi’r cynllun hwn ar waith, mae Llywodraeth Cymru’n gweithio tuag at weledigaeth y bydd Cymru’n dod yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030. Datblygwyd y cynllun gweithredu ar ôl nifer o drafodaethau a sgyrsiau gyda phobl ethnig leiafrifol o ystod o gymunedau a sefydliadau ledled Cymru. Trwy ddefnyddio’r dull hwn, mae’r cynllun gweithredu’n seiliedig ar brofiadau cymunedau ethnig leiafrifol ac yn amcanu at fynd i’r afael ag achosion sylfaenol hiliaeth. Yn y cynllun, nodir bod yr Uned Dystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hil yn adnodd

allweddol ar gyfer sicrhau bod Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn seiliedig ar dystiolaeth, yn cael ei fonitro a’i werthuso.

Mae’r iaith a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn dilyn yr iaith wrth-hiliol y cytunwyd arni yn y cynllun gweithredu, yn benodol 'Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol’ a ‘pobl ethnig leiafrifol’. Gall iaith amrywio a bod yn wahanol, a gall pobl ddefnyddio ystod o dermau i hunan-ddiffinio. Mae iaith a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn cyd-fynd ag iaith wrth-hiliol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol gan ei bod wedi cael ei hadnabod a’i datblygu gan y rhai â phrofiad personol o hiliaeth.

## Hunaniaeth genedlaethol

Mae hunaniaeth genedlaethol yn fesur o hunaniaeth sy’n galluogi rhywun i fynegi dewis o ran pa wlad neu wledydd, cenedl, neu genhedloedd y maent yn teimlo’r cysylltiad mwyaf â hi neu â hwy. Argymhellwyd cwestiwn am hunaniaeth genedlaethol yn dilyn mwy o ddiddordeb yn y pwnc yma. Mae safon wedi'i chysoni gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (Swyddogaeth Ddadansoddi’r Llywodraeth, 2021) wedi cael ei datblygu i gasglu data ar hunaniaeth genedlaethol.

Mae’r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth am hunaniaeth genedlaethol ymatebydd trwy’r cwestiwn argymelledig sy’n seiliedig ar safon wedi’i chysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (Swyddogaeth Ddadansoddi’r Llywodraeth, 2023) sy’n gofyn i ymatebwyr:

> Sut fyddech chi’n disgrifio’ch hunaniaeth genedlaethol? Dewiswch bob un sy’n berthnasol.
>
> **Darllenwch bob ateb ar y rhestr cyn rhoi cyfle i’r ymatebydd ateb**
>
> Cymro / Cymraes,
>
> Sais / Saesnes,
>
> Albanwr / Albanes,
>
> Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon,
>
> Prydeiniwr / Prydeinwraig, neu
>
> Hunaniaeth genedlaethol arall?
>
> Ddim yn gwybod – **digymell yn unig**
>
> **Os hunaniaeth genedlaethol arall:**
>
> **Gofynnwch neu codiwch**: Beth yw’r hunaniaeth genedlaethol arall?
>
> **Nodwch destun**

## Ethnigrwydd

I gasglu gwybodaeth am ethnigrwydd, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn defnyddio safon wedi'i chysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth, 2011) ar gyfer ethnigrwydd. Gofynnir i ymatebwyr ddewis 'un sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau'. Mae'r opsiynau a roddir i ymatebwyr yn gynhwysfawr. Cynhwysir nifer o opsiynau ym mhob categori lefel-uchel, yn ogystal ag opsiwn i ymatebwyr ddisgrifio eu hethnigrwydd os nad yw'r un o'r grwpiau a restrir yn disgrifio eu cefndir ethnig orau.

Caiff y 18 opsiwn a roddir i ymatebwyr eu rhestru isod, wedi'u categoreiddio o fewn 5 grwpiad lefel-uchel.

1. Beth yw eich grŵp ethnig? Fe wnaf i ddarllen y dewisiadau.
   Dewiswch un sy'n disgrifio eich grŵp ethnig neu gefndir orau.
   **Darllenwch bob ateb yn ei dro nes bod yr ymatebydd yn dewis un**
   Gwyn,
   Grwpiau ethnig cymysg neu luosog,
   Asiaidd, Asiaidd Cymreig, neu Asiaidd Prydeinig,
   Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd, neu Affricanaidd,
   neu Grŵp ethnig arall?
   Ddim yn gwybod – **digymell yn unig**

2. Ac o fewn y grwpiau hynny, pa un o'r rhain sy'n disgrifio eich grŵp ethnig neu gefndir orau?
   **Darllenwch bob ateb ar y rhestr cyn rhoi cyfle i'r ymatebydd ateb**
   **Os gwyn:**
   Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon, neu Brydeinig,
   Gwyddelig,
   Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig, neu
   Unrhyw gefndir Gwyn arall?
   Ddim yn gwybod – **digymell yn unig**
   **Os grwpiau ethnig cymysg neu luosog**:
   Gwyn a Du Caribïaidd,

Gwyn a Du Affricanaidd,
Gwyn ac Asiaidd, neu
Unrhyw gefndir ethnig cymysg neu amrywiol arall?
Ddim yn gwybod – **digymell yn unig**
**Os Asiaidd, Asiaidd Cymreig, neu Asiaidd Prydeinig:**
Indiaidd,
Pacistanaidd,
Bangladeshaidd,
Tsieineaidd, neu
Unrhyw gefndir Asiaidd arall?
Ddim yn gwybod – **digymell yn unig**
**Os Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd, neu Affricanaidd:**
Affricanaidd,
Caribïaidd, neu
Unrhyw gefndir Du, Affricanaidd neu Garibïaidd arall?
Ddim yn gwybod – **digymell yn unig**
**Os dewisir yr opsiwn 'unrhyw...arall**: Beth yw'r grŵp ethnig neu gefndir arall?
**Nodwch destun**

3. **Os grŵp ethnig arall:** Disgrifiwch eich grŵp ethnig neu gefndir?
   **Nodwch destun**

Mae'r maint sampl a gyflawnir ar gyfer y rhan fwyaf o'r grwpiau ethnig hyn yn rhy fach i gynhyrchu amcangyfrifon manwl gywir, sy'n adlewyrchu cyfansoddiad poblogaeth Cymru. I atal y broblem gyda maint bach y sampl, caiff y 18 grŵp eu cyfuno'n rheolaidd yn dri chategori at ddibenion adrodd: 'Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd a Gwyddelig Gogledd Iwerddon)', 'Gwyn (Gwyddelig, Sipsiwn, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir gwyn arall)', a 'Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol'. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn trin yr holl is-grwpiau ym mhob categori fel rhai sydd yr un fath â'i gilydd ac felly gall anwybyddu unrhyw wahaniaethau bychain ymhlith y grwpiau hyn.

At ddibenion prosiect yr adroddiad hwn, cafodd data ei gydgrynhoi'n bum grŵp ethnig lefel-uchel: 'Gwyn', 'Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog', 'Asiaidd neu

Asiaidd Prydeinig’, ‘Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig’, a ‘Grŵp ethnig arall: Arabaidd, neu Unrhyw grŵp ethnig arall’ (y cyfeirir ato fel ‘Ethnigrwydd arall’ drwy’r adroddiad hwn i gyd). Fodd bynnag, mae’r grwpiad hwn yn broblemus oherwydd ei gysylltiad ag arallu.

Cydnabyddir bod y 5 grŵp ethnig lefel-uchel yn grwpiau annhebyg a bod gan bobl yn y rhain brofiadau gwahanol a all fod wedi eu cuddio oherwydd y cydgrynhoi yma. Er enghraifft, mae data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru o’r bwletin Gwahaniaethau grŵp ethnig mewn iechyd, tai, addysg a statws economaidd yng Nghymru, Cyfrifiad 2021 (Llywodraeth Cymru, 2023) yn dynodi mai pobl yn y grŵp ethnig lefel-uchel ‘Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig’ oedd fwyaf tebygol o fod â chymhwyster lefel 4 neu uwch (43.9%). Fodd bynnag, o fewn y grŵp yma roedd gwahaniaethau mawr. Y rhai a oedd yn uniaethu fel pobl ‘Indiaidd’ oedd fwyaf tebygol o fod â chymwysterau ar Lefel 4 neu uwch (61.9%), tra bo’r rhai yn y grŵp ethnig ‘Bangladeshaidd’ yn llawer llai tebygol o fod â chymwysterau ar Lefel 4 neu uwch (25.0%).

Mae data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 a Chyfrifiad 2021 yn nodi cyfrannau sy’n debyg yn fras o ran pobl yn y tri grŵp ethnig a ddangosir yn Nhabl 3. Nododd yr Arolwg Cenedlaethol fod 95% o ymatebwyr yn uniaethu â’r grŵp ‘Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon)’, o’i gymharu â 91% o’r boblogaeth yng Nghyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru, tra bo 3% o ymatebwyr yn uniaethu â’r grŵp ‘Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol’ a 2% o ymatebwyr yn uniaethu â’r grŵp ‘Gwyn (Gwyddelig, Sipsiwn, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir gwyn arall)’. Mae hyn yn cymharu â 5% a 3% yng Nghyfrifiad 2021 yn y drefn honno.

**Tabl 3: Canran y bobl 16 oed a throsodd yn ôl grŵp ethnig, gan gymharu data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 â data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru**

| Ethnigrwydd | Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 | Cyfrifiad 2021 (Cymru) |
|---|---|---|
| Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon) | 95% | 91% |
| Gwyn (Gwyddelig, Sipsiwn, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir gwyn arall) | 2% | 3% |
| Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol | 3% | 5% |

**Disgrifiad o Dabl 3**

Dengys Tabl 3 fod cyfrannau'r bobl yn y tri chategori grwpiau ethnig cyfanredol 'Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon)', 'Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol', a 'Gwyn (Gwyddelig, Sipsiwn, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir gwyn arall)' yn debyg yn fras ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol a Chyfrifiad 2021.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru

Nodiadau:

1: Mae maint sampl Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 yn 12,580

Fe wnaeth cyfuno pedair blynedd o ddata'r Arolwg Cenedlaethol gynyddu maint sampl pob grŵp ethnig. Fodd bynnag, er gwaethaf y cyfuno yma, roedd hi'n dal yn wir na ellid gwneud gwaith dadansoddi gan ddefnyddio pob un o'r 18 opsiwn a restrir ar gyfer ethnigrwydd yn yr Arolwg Cenedlaethol oherwydd y meintiau samplau bychain a gyflawnwyd ar gyfer yr is-grwpiau amrywiol.

## Crefydd neu Gred

Mae gwybodaeth am grefydd, ond nid cred, yn cael ei chasglu yn yr Arolwg Cenedlaethol. Nid yw hyn yn anghyffredin mewn arolygon cymdeithasol gan bod gwybodaeth am gred yn aml yn cael ei chynnwys fel rhan o wybodaeth am grefydd yn lle bod mewn categori ar wahân. Nid yw cysyniad cred mor hawdd i'w adnabod na'i ddeall ag yw cysyniad crefydd, gan ei gwneud yn anodd ei gynnwys mewn

arolygon, yn enwedig mewn arolygon hunan-gwblhau lle nad oes cyfwelydd yn bresennol i helpu.

Mae crefydd yn dilyn materion tebyg i ethnigrwydd yn nata cyfunol yr Arolwg Cenedlaethol gan bod maint y sampl ar draws grwpiau amrywiol yn fach. Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn dilyn safon wedi'i chysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar gyfer crefydd (Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth, 2020):

> Beth yw eich crefydd?
> **Darllenwch bob ateb yn ei dro nes bod yr ymatebydd yn dewis un**
> Dim crefydd,
> Cristnogaeth (pob enwad),
> Bwdhaeth,
> Hindŵaeth,
> Iddewiaeth,
> Islam,
> Siciaeth, neu
> Unrhyw grefydd arall?
> Ddim yn gwybod – **digymell yn unig**
> Mae'n well gen i beidio â dweud - **digymell yn unig**
>
> **Os unrhyw grefydd arall**:
> Beth yw'r grefydd arall?
> **Nodwch destun**

Mae gwaith dadansoddi blaenorol ar grefydd wedi grwpio ymatebion yn ôl 'Dim crefydd', 'Cristnogaeth' a 'Crefydd arall' oherwydd meintiau bychain y samplau. Ym mlwyddyn arolwg 2021 i 2022, dim ond 3% o oedolion oedd yn y grŵp 'Crefydd arall'.

Mae'r gallu i gasglu gwybodaeth am yr holl grwpiau crefyddol mewn arolwg o sampl ar hap o aelwydydd yn gyfyngedig a, hyd yn oed yn dilyn cyfuno pedair o flynyddoedd yr arolwg, roedd maint y sampl yn dal i fod yn rhy fach ar gyfer dadansoddi gronynnog ar draws pob un o'r wyth categori ond roedd yn ei gwneud yn bosibl gwneud gwaith dadansoddi ar draws y pedwar categori 'Cristnogaeth', 'Dim crefydd', 'Islam' a 'Crefydd arall' (gweler pennod 4 am ragor o fanylion).

Nododd yr adroddiad ar Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 mai'r categori grŵp crefyddol mwyaf ymhlith ymatebwyr oedd 'Cristnogaeth (pob enwad)' ar 53%, o'i gymharu â'r ail gategori mwyaf 'Dim crefydd' ar 44%. Mae hyn yn cymharu'n fras â Chyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru, lle mai Cristnogaeth yw'r categori mwyaf ar 50% ar gyfer y rhai 16 oed a throsodd a lle dewisodd 47% o oedolion yr ateb 'dim crefydd'. Fodd bynnag, dylid nodi bod ffigyrau Cyfrifiad 2021 a nodir yn Nhabl 4 ychydig yn wahanol i'r rhai yr adroddwyd arnynt ym mwletin ystadegol Llywodraeth Cymru Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) (Llywodraeth Cymru, 2022). Y rheswm dros hyn yw bod data Cyfrifiad 2021 yn Nhabl 4 yn adlewyrchu oedolion 16 oed a throsodd a ymatebodd i'r cwestiwn er mwyn cymharu'n uniongyrchol ag ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022.

**Tabl 4: Canran y bobl 16 oed a throsodd yn ôl crefydd, gan gymharu data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 â data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru**

| Grŵp crefyddol | Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 | Cyfrifiad 2021 (Cymru) |
|---|---:|---:|
| Dim crefydd | 44% | 47% |
| Cristnogaeth (pob enwad) | 53% | 50% |
| Crefydd arall | 3% | 4% |

**Disgrifiad o Dabl 4**

Dengys Tabl 4, yng Nghymru, yn ôl Cyfrifiad 2021, mai'r grŵp crefyddol mwyaf ymhlith pobl 16 oed a throsodd oedd Cristnogaeth (50%), gyda'r rhai sydd â 'Dim crefydd' (47%) yn dilyn wedyn, tra bo data Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 yn dangos bod 53% o ymatebwyr wedi nodi mai Cristnogaeth oedd eu crefydd a bod 44% wedi nodi 'Dim crefydd'.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru

Nodiadau:
1: Mae maint sampl Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 yn 12,580
2: Nid yw'r ffigyrau yr adroddir arnynt ar gyfer Cyfrifiad 2021 yn cynnwys y rhai na wnaethant ymateb i'r cwestiwn.

## Rhyw

Mae canllawiau y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau ar gasglu ac adrodd ar ddata am rhyw a hunaniaeth rhywedd a gyhoeddwyd yn 2024 yn cyfeirio at rhyw fel “newidyn deuaidd sydd wedi’i categoreiddio fel benyw neu gwryw”, sy’n cael ei gofnodi yn y DU ar enedigaeth yn seiliedig ar nodweddion biolegol. Cydnabyddwyd hefyd ar adeg yr ysgrifennu (Rhagfyr 2024) fod rheini dros 18 oed yn y DU yn gallu ceisio am Tystysgrif Adnabod Rhywedd a fyddai’n newid eu rhyw sy'n cael ei chydnabod yn gyfreithiol. Yn ychwanegol, defnyddiodd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau y term hunaniaeth rhywedd i gyfeirio at deimlad unigolion o’u rhywedd eu hun, yn cydnabod fod hunaniaeth rhywedd yn gallu mynd y tu hwnt i’r categorïau deuaidd o gwryw/benyw, ac yn gallu bod yn wahanol i rhyw unigolyn. Mae’r diffiniadau yma wedi cael eu defnyddio ar gyfer yr adroddiad yma.

Mae datblygiad y Safonau Wedi'u Cysoni ar gyfer data rhyw a rhywedd yn mynd yn ei blaen, ac yn amodol ar newid o ganlyniad i ddatblygiadau diweddar gan gynnwys dyfarniad y Goruchaf Lys ar “ddiffiniad menyw”. Gan fod y data yn yr adroddiad yma yn hanesyddol, mae’r adrodd wedi’i seilio ar ddiffiniadau a ddefnyddiwyd ar amser y casgliad, a drafodwyd isod.

Mae’r dull o gasglu data ar ryw yn yr Arolwg Cenedlaethol wedi bod trwy nifer o newidiadau dros y blynyddoedd, a oleuwyd gan wersi a datblygiadau yn y maes ymchwil yma, gweithgarwch i ail-ddylunio’r arolwg, a chyfyngiadau ar faint y sampl. Yn 2018 i 2019 a 2019 i 2020, pan gynhaliwyd yr arolwg wyneb yn wyneb, defnyddiwyd y cwestiwn canlynol:

Rhywedd [Yr Ymatebydd/Enw]

Fodd bynnag, nid oedd hwn yn gwestiwn penodol yr oedd angen i gyfwelwyr ei ofyn, ac roedd yn aml yn cael ei godio gan y cyfwelwyr eu hunain, heb iddynt ofyn i ymatebwyr. Gallai cyfwelwyr godio:

Gwryw
Benyw
Arall – **digymell yn unig**
Ddim yn gwybod - **digymell yn unig**

Mae ‘Arall’ yn ymateb caeëdig, gan olygu nad oes cwestiwn dilynol na chyfle i ysgrifennu i mewn beth yw ‘Arall’.

Gan nad oedd y cwestiwn yn cael ei ofyn mewn modd cyson, a'i fod yn aml yn cael ei godio gan gyfwelwyr heb iddynt ofyn i ymatebwyr, mae felly'n debygol y byddai geiriad y cwestiwn ar y pryd wedi cynnwys rhyw a rhywedd yn gyfnewidiol.

Mae canllawiau sy'n ymwneud â chwestiynau mewn arolygon ynglŷn â rhyw a rhywedd wedi cael eu datblygu a'u mireinio ymhellach yn y blynyddoedd diwethaf. Caiff y datblygiadau hyn o ran canllawiau, gan gynnwys diweddariadau i'r safon wedi'i chysoni, eu hadlewyrchu mewn newidiadau a wnaed i'r cwestiwn hwn yn yr Arolwg Cenedlaethol dros y blynyddoedd, gan gynnwys ail-labelu'r newidyn ar gyfer y cwestiwn hwn â'r term 'Rhyw' yn hytrach na 'Rhywedd' i roi adlewyrchiad gwell o'r data y mae'n amcanu at ei gasglu. Mae'r fersiwn gyfredol yn 2024 i 2025 yn gofyn:

> Beth yw [eich] rhyw [Enw]?
>
> **Cymell os oes angen**: Gwryw neu fenyw?
>
> **Os oes angen**: Rydym yn gofyn hyn fel y gallwn lunio canlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Fel eich holl atebion, dim ond ar gyfer ymchwil y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio ac ni fydd byth modd eich adnabod o'r canlyniadau.
>
> Dylai'r cyfarwyddyd i'r cyfwelydd ymddangos dim ond wrth ofyn cwestiwn i'r ymatebydd, nid aelodau eraill yr aelwyd: mae'n bwysig eich bod yn gofyn y cwestiwn, hyd yn oed os ydych yn teimlo bod rhyw yr ymatebydd yn amlwg, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gofnodi'n gywir.
>
> Benyw
>
> Gwryw
>
> Mae'n well gan yr ymatebydd beidio dewis gwryw neu fenyw yma – **digymell yn unig**
>
> Ddim yn gwybod - **digymell yn unig**

Mae'r newidiadau hyn yn dilyn dull y Swyddogaeth Ddadansoddi (Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth, 2019); fodd bynnag, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn dal i beidio â chasglu unrhyw ddata ar hunaniaeth rhywedd nac ailbennu rhywedd.

Yn ogystal â chyd-fynd â safonau wedi'u cysoni, dylai cwestiynau sy'n casglu data ar ryw a hunaniaeth rhywedd gydymffurfio â'r canllawiau casglu ac adrodd newydd a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau yn 2024 (Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, 2024) hefyd. Mae'r canllawiau hyn gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau'n datgan ei bod hi'n bwysig i sefydliadau'r Llywodraeth

ddeall eu casgliadau data eu hunain, i wybod y gwahaniaeth rhwng rhyw a hunaniaeth rhywedd, a gwybod pa ddata y maent yn ei gasglu (gan gynnwys y math o wybodaeth am ryw sy’n cael ei chasglu). Mae hefyd yn atgoffa cynhyrchwyr data, wrth benderfynu a ydynt yn mynd i gasglu data am ryw ynteu am hunaniaeth rhywedd, y dylai ansawdd data fod yn ystyriaeth allweddol gan gynnwys derbynioldeb cwestiynau a meintiau bychain y samplau. Mae'r SYG wedi rhyddhau cynlluniau i ddatblygu eu safon gytûn ymhellach ar gasglu data rhyw a hunaniaeth rhywedd ochr yn ochr â'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024). Yn ogystal, mae'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn datblygu canllawiau i ddod â chydlyniant ar gasglu data rhyw, rhywedd a hanes traws yng Nghymru. Cyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud i ddull yr Arolwg Cenedlaethol, dylid ystyried canllawiau'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau uchod i gynnal cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer Ystadegau. Mae Argymhelliad 3 o'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r canllawiau ymchwil a awgrymwyd.

Roedd y data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 yn nodi bod 56% o ymatebwyr yn fenywod, o’i gymharu â 52% yng Nghyfrifiad 2021.

**Tabl 5: Canran y bobl 16 oed a throsodd yn ôl rhyw, gan gymharu data heb ei bwysoli o Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 â data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru**

| Rhyw | Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 | Cyfrifiad 2021 (Cymru) |
|---|---:|---:|
| Gwryw | 44% | 48% |
| Benyw | 56% | 52% |

**Disgrifiad o Dabl 5**

Dengys Tabl 5, yng Nghymru, yn ôl Cyfrifiad 2021, fod 48% o oedolion yn wrywod a 52% yn fenywod, tra bo 44% o ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 yn wrywod a 56% yn fenywod.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru

Nodiadau:

1: Mae maint sampl Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 yn 12,580.

## Ailbennu Rhywedd

Nid yw'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth am hunaniaeth rhywedd nac ailbennu rhywedd ar hyn o bryd. Yng Nghyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru, cafodd cwestiwn gwirfoddol newydd am hunaniaeth rhywedd ei ddatblygu a'i gynnwys gan arwain at yr Ystadegau Swyddogol cyntaf i gael eu cyhoeddi (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023) ar faint y boblogaeth drawsryweddol yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, yn dilyn cais ysgrifenedig gan y SYG ac oherwydd ymwybyddiaeth y SYG o gyfyngiadau'r data, mae'r ystadegau hyn wedi cael eu hailgategoreiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau yn 'Ystadegau Swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu' (Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, 2023). Mae hyn yn adlewyrchu eu natur arloesol a'r ddealltwriaeth esblygol am fesur hunaniaeth rhywedd, yn ogystal â'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r amcangyfrifon hyn. Ceir rhagor o fanylion trwy gyfeirio at yr Wybodaeth am ansawdd data ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024) ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Roedd y cwestiwn yn gofyn, 'Ydy'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un fath â'ch rhyw a gofrestrwyd adeg eich geni?'. Mewn ymateb, rhoddodd 0.4% o'r boblogaeth 16 oed a throsodd yng Nghymru'r ateb 'Nac ydy'. Ceir canfyddiadau pellach o Gyfrifiad 2021 ar hunaniaeth rhywedd yng Nghymru ym mwletin ystadegol Llywodraeth Cymru Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) (Llywodraeth Cymru, 2023). Mae hyn yn arwydd, pe bai gwybodaeth am hunaniaeth rhywedd neu ddemograffeg gysylltiedig yn cael ei chasglu gan yr Arolwg Cenedlaethol y byddai'n gyfran fach iawn o faint y sampl ar y cyfan (h.y. pe bai'r sampl a gyflawnwyd yn 12,000, mae'n debygol y byddai llai na 50 o ymatebwyr yn y grŵp yma).

Roedd Cyfrifiad 2022 yn yr Alban hefyd yn cynnwys cwestiwn gwirfoddol newydd am statws neu hanes traws. Mae'r geiriad, sy'n wahanol i'r geiriad yng Nghymru a Lloegr, yn gofyn "Do you consider yourself to be trans, or have a trans history?". Gallai pobl roi tic ar bwys "No" neu "Yes". Wedyn gofynnid i'r rhai a oedd wedi rhoi tic ar bwys "Yes" ddisgrifio eu statws traws (er enghraifft, anneuaidd, dyn traws, menyw draws).

Yng Nghyfrifiad 2022 yn yr Alban, dywedodd 0.44% o'r boblogaeth (16 oed a throsodd) eu bod yn draws neu fod ganddynt hanes o fod yn draws, y dywedodd bron eu hanner eu bod yn anneuaidd. Fodd bynnag, er bod 94% o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn, mae'r ystadegau yr adroddir arnynt yn cyfrifo canran y bobl sy'n draws neu sydd â hanes o fod yn draws fel cyfran o'r boblogaeth ar y cyfan (h.y. gan gynnwys y 5.92% na wnaethant ateb). Mae geiriad y Cwestiwn yng Nghyfrifiad yr Alban am statws traws wedi cael ei gynnwys bellach fel rhan o ganllawiau interim tîm cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar gyfer hunaniaeth rhywedd fel cwestiwn sy'n seiliedig ar safon wedi'i chysoni ar gyfer casglu'r wybodaeth hon (Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth, 2024). Nid yw'r set o gwestiynau yng Nghyfrifiad Cymru a Lloegr nac yng Nghyfrifiad yr Alban am hunaniaeth rhywedd a statws traws yn mapio'n union i'r nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd a gydnabyddir yn gyfreithiol. Y rheswm dros hyn yw nad yw'r naill na'r llall o'r setiau o gwestiynau'n casglu gwybodaeth am y rhai sy'n bwriadu mynd, sydd wrthi'n mynd, neu sydd wedi bod trwy'r broses o ailbennu eu rhyw, sy'n cynnwys cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2021).

## Cyfeiriadedd Rhywiol

Gofynnodd Arolwg Cenedlaethol 2022 i 2023 y cwestiwn canlynol am gyfeiriadedd rhywiol:

> Byddaf nawr yn darllen rhestr o dermau y mae pobl yn eu defnyddio weithiau i ddisgrifio sut maen nhw'n meddwl amdanyn nhw eu hunain.
>
> Heterorywiol neu Strêt
>
> Hoyw neu Lesbiaidd
>
> Deurywiol
>
> Arall
>
> Wrth i mi ddarllen y rhestr eto, dywedwch 'ie' pan fyddwch yn clywed yr opsiwn sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n meddwl am eich hun.
>
> **Rhowch y cod cyntaf sy'n berthnasol**
>
> Heterorywiol neu Strêt
>
> Hoyw neu Lesbiaidd

Deurywiol, neu

Arall?

Ddim yn gwybod – **digymell yn unig**

I ymatebwyr sy'n dewis 'Arall', nid oes cyfle i ddatgan beth mae 'Arall' yn ei olygu i'r unigolyn hwnnw.

Oherwydd bod poblogaeth yr arolwg yn 'Heterorywiol' gan mwyaf, mae gwaith dadansoddi blynyddol ar gyfeiriadedd rhywiol gan dîm yr Arolwg Cenedlaethol wedi bod yn cael ei wneud trwy ddeillio newidyn sy'n cymharu ymatebwyr strêt ac LHDC+. Y rheswm dros hyn yw bod meintiau bychain y samplau ar gyfer y categorïau mwy manwl yn atal dadansoddiad manylach. Nid oes unrhyw ddata ar bobl drawsryweddol yn cael ei gynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol, a dyna pam y defnyddir yr acronym LHDC+.

Mae'r trywydd holi cwestiynau a'r categorïau ymateb ar gyfer casglu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol yn dilyn safonau wedi'u cysoni (Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth, 2019). Fodd bynnag, cyn Cyfrifiad 2021, fe wnaed gwaith ymchwil i ailddatblygu'r cwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol yng Nghyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018). Roedd y cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol yng Nghyfrifiad 2021 yn gofyn:

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol orau?

Mae'r cwestiwn hwn yn wirfoddol

Strêt neu Heterorywiol

Hoyw neu Lesbiaidd

Deurywiol

Cyfeiriadedd rhywiol arall
Rhowch y cyfeiriadedd rhywiol i mewn

Mae Cyfrifiad 2021 yn cynnwys dolen ar y sgrîn o dan y cwestiwn hwn ar 'Pam fod eich ateb yn bwysig'.

Mae categorïau ymateb y Cyfrifiad wedi newid hefyd yn seiliedig ar adborth defnyddwyr felly nid ydynt yn adlewyrchu safonau wedi'u cysoni yn union. Mae

‘Strêt’ bellach yn dod cyn ‘Heterorywiol’ gan nad oedd rhai ymatebwyr yn siŵr o ystyr heterorywiol. Mae’r opsiwn ‘Arall’ bellach yn cynnwys blwch y gall pobl ysgrifennu eu cyfeiriadedd ynddo. Canfu profion meintiol a nodwyd mewn adroddiad adborth ar Gyfrifiad 2021 fod cyfradd diffyg ymateb uwch (4.1%) ar gyfer y cwestiwn gydag opsiwn ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’ a chyfarwyddyd ‘Mae’r cwestiwn hwn yn wirfoddol’ o’i gymharu â’r cwestiwn gyda dim ond opsiwn ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’ (2.7%) (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021). Oherwydd hyn, cafodd yr opsiwn ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’ ei dynnu allan, ac mae datganiad i nodi bod y cwestiwn yn wirfoddol yn cael ei gyflwyno mewn inc trwm, gyda hyperddolen i wybodaeth sy’n egluro pam fod y cwestiwn hwn yn bwysig. Gallai’r adroddiad Datblygu’r cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol ar gyfer Cyfrifiad 2021 ddarparu canllawiau defnyddiol ynghylch strwythur y cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol ar gyfer iteriadau o'r arolwg yn y dyfodol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021).

Cafodd cyfeiriadedd rhywiol ei gynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol cyn COVID-19. Fodd bynnag, oherwydd y newid yn y dull a ddeilliodd o’r pandemig, ni chafodd ei gynnwys yn 2020 i 2021 a 2021 i 2022 a dim ond yn 2022 i 2023 y cafodd ei adfer. Gan nad oes data ar gyfeiriadedd rhywiol ar gael ar gyfer 2021 i 2022, ni ddygwyd cymhariaeth â data Cyfrifiad 2021.

## Nodweddion Cysylltiedig

### Statws economaidd-gymdeithasol

Gellir mesur statws economaidd-gymdeithasol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2024), er enghraifft, yn defnyddio nifer o ffactorau i bennu anfantais economaidd-gymdeithasol: amddifadedd ardal, amddifadedd materol, cyfoeth isel neu ddim cyfoeth, incwm isel neu ddim incwm, a chefndir economaidd-gymdeithasol. Cyfeirir at y ffactorau hyn yn y canllawiau statudol (Llywodraeth Cymru, 2020) sy’n cyd-fynd â’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a gyflwynwyd yng Nghymru. Dros y blynyddoedd, mae’r Arolwg Cenedlaethol wedi cwmpasu’r rhan fwyaf o’r ffactorau hyn (tlodi bwyd, tlodi tanwydd, anawsterau

ariannol, statws economaidd, amddifadedd materol ac incwm); fodd bynnag, nid yw cyfoeth a chefndir economaidd-gymdeithasol wedi cael eu cynnwys.

Mae safon wedi'i chysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth, 2023) ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol yn argymell wyth cwestiwn sy'n ymwneud â'r canlynol: math o ysgol; prydau ysgol am ddim; cyflogai, hunangyflogedig neu ddim yn gweithio; nifer y cyflogeion (fersiwn gyflogedig); nifer y cyflogeion (fersiwn hunangyflogedig); statws goruchwyliwr; galwedigaeth rhieni; cymwysterau rhieni. Fodd bynnag, hyd yma, nid yw'r Arolwg Cenedlaethol wedi casglu unrhyw wybodaeth am alwedigaeth rhieni, cymwysterau rhieni, math o ysgol, prydau ysgol am ddim, statws goruchwyliwr na nifer y cyflogeion.

# Canfyddiadau: Dadansoddiad cyfunol o'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

Mae'r bennod hon yn manylu ar ddadansoddiad o set ddata sy'n cynnwys cyfuniad o bedair blynedd o ddata'r Arolwg Cenedlaethol (2016 i 2017, 2017 i 2018, 2018 i 2019 a 2019 i 2020).

Mae'r adrannau isod yn crynhoi'r canfyddiadau o'r dadansoddiad cyfunol yn ôl pob nodwedd cydraddoldeb ar gyfer pob un o'r pedwar Dangosydd Cenedlaethol. Fodd bynnag, dim ond data ar amddifadedd materol y mae'r siartiau a gynhwysir yn ei gyflwyno a hynny i ddangos effaith cyfuno pedair blynedd o ddata ar ansawdd y data.

Mae'r grwpiau a gyflwynir ar gyfer pob nodwedd cydraddoldeb yn adlewyrchu'r lefel fwyaf o fanylder sy'n bosibl gan sicrhau hefyd bod amcangyfrifon yn seiliedig ar feintiau samplau digon mawr. Mae tablau data o'r dadansoddiad cyfunol a gyflawnwyd wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn fel taenlenni data agored.

Er bod cyfuno blynyddoedd o ddata'n gwella meintiau samplau i ryw raddau, mae cyfyngiadau'n dal i fodoli ar feintiau samplau wrth ddadgyfuno yn ôl grwpiau cydraddoldeb. Mae hyn yn golygu bod rhai o'r amcangyfrifon a gyflwynir yn y bennod hon yn anfanwl iawn. Cynhwysir yr amcangyfrifon hyn dim ond i ddangos y diffyg manwl gywirdeb hwn yn hytrach nag i ddangos deilliannau anghyfartal. Ni ddylid eu cymryd allan o gyd-destun a dylid eu dehongli â phwyll. Ceir gwybodaeth am fanwl gywirdeb yr holl amcangyfrifon a ddangosir yn yr adroddiad hwn yn y taenlenni data agored.

Hefyd wedi ei hamlinellu yn yr adran hon mae gwybodaeth am ble y mae dadansoddiadau cydraddoldeb mwy cyfoes wedi cael eu cyhoeddi'n barod ar gyfer y Dangosyddion Cenedlaethol.

## Dangosyddion Cenedlaethol yn ôl oedran

Dengys y dadansoddiad fod meintiau samplau'r Arolwg Cenedlaethol yn ddigon mawr i ddarparu dadansoddiadau un flwyddyn wedi'u rhannu yn ôl oedran ar bob un o'r pedwar Dangosydd Cenedlaethol. Mae rhai dadansoddiadau yn ôl oedran eisoes wedi cael eu cyhoeddi ar ddangosydd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol


(Llywodraeth Cymru, 2024) ac fe'u cyflwynir ar ddangosfwrdd data Llesiant Cymru: Dangosyddion Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2022) (sy'n defnyddio data a gyhoeddwyd ar StatsCymru (Llywodraeth Cymru, 2022)) hefyd.

Ar gyfer yr holl ddangosyddion ac eithrio ymddygiadau iach oedolion o ran ffordd o fyw, mae data hyd at 2022 i 2023 wedi cael ei gyhoeddi wedi'i rannu yn ôl pum grŵp oedran (16 i 24, 25 i 44, 45 i 64, 65 i 74 a 75 a throsodd). Ar gyfer ymddygiadau iach oedolion o ran ffordd o fyw, mae data wedi cael ei gyhoeddi yn ôl tri grŵp oedran (16 i 44, 45 i 64 a 65 a throsodd). Roedd data ar gyfer un flwyddyn hefyd yn ddigon manwl gywir i gyhoeddi dadansoddiadau yn ôl oedran ar gyfer rhai Awdurdodau Lleol ond nid pob un.

Yn y dadansoddiad cyfunol, cafodd data'r Dangosyddion Cenedlaethol ei rannu yn ôl saith grŵp oedran (16 i 24, 25 i 34, 35 i 44, 45 i 54, 55 i 64, 65 i 74 a 75 a throsodd) ac, yn gyffredinol, roedd dadansoddiad ar gyfer un flwyddyn ar y lefel ronynogrwydd hon yn bosibl.

Wrth fwrw golwg ar amddifadedd materol yn ôl saith grŵp oedran, gellir ystyried bod data cyfunol dros bedair blynedd rhwng 2016 i 2017 a 2019 i 2020 yn fanwl gywir gyda chyfyngau hyder cul (pob un yn llai na +/- 2% o gwmpas yr amcangyfrif canolog). Roedd cyfyngau hyder ychydig yn uwch yn y dadansoddiad ar gyfer un flwyddyn, ond roeddent i gyd yn dal yn llai na +/- 4%. Roedd tueddiadau mewn amddifadedd materol yn ôl oedran yr un fath mewn data ar gyfer un flwyddyn a data cyfunol dros bedair blynedd ac roedd y manwl gywirdeb yn weddol dda yn y ddau achos (fel a welir yn Ffigur 1). Mae hefyd yn dangos lle'r oedd gwahaniaethau go iawn rhwng grwpiau oedran o ran cyfraddau amddifadedd materol. Er enghraifft, nid yw'r cyfyngau hyder (a ddangosir fel bariau cyfeiliornad yn y ffigur) sy'n gysylltiedig â'r grŵp oedran 65 i 74 a 75 a throsodd yn gorgyffwrdd â'r rhai mewn unrhyw grŵp oedran arall. Felly, gall fod hyder cymharol bod y tebygolrwydd o fod mewn amddifadedd materol yn is ar gyfer y rhai yn y grwpiau oedran hyn o'i gymharu â'r grwpiau eraill. Fodd bynnag, gan bod y bariau cyfeiliornad ar gyfer y grwpiau oedran 65 i 74 a 75 a throsodd yn gorgyffwrdd â'i gilydd, nid oedd y gwahaniaethau rhwng y grwpiau oedran hyn yn arwyddocaol yn ystadegol. Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth rhwng y grwpiau oedran hyn o ran pa mor debygol oeddent o brofi amddifadedd materol.

**Ffigur 1: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl categori oedran, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020**




**Disgrifiad o Ffigur 1**

Dengys Ffigur 1 siart bar glystyrog, lorweddol o ganran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol wedi'i rhannu yn ôl grŵp oedran. Dangosir bariau cyfeiliornad hefyd ar gyfer y data cyfunol pedair blynedd o 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020. Dengys y ffigur fod amddifadedd materol yn cael ei brofi gan gyfran fwy o oedolion iau nag oedolion hŷn a bod tueddiadau'n gyfartal ar gyfer y dadansoddiad un flwyddyn a'r dadansoddiad cyfunol.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Meintiau'r samplau: 45,770 (Data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020); 12,380 (Data un flwyddyn 2019 i 2020).

## Dangosyddion Cenedlaethol yn ôl pa un a yw rhywun yn anabl ai peidio


Dengys y dadansoddiad fod meintiau samplau'r Arolwg Cenedlaethol yn ddigon mawr i gyflwyno dadansoddiad un flwyddyn yn ôl oedolion anabl ac oedolion nad ydynt yn anabl ar gyfer pob un o'r pedwar Dangosydd Cenedlaethol. Fodd bynnag, dim ond trwy ddangosydd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2023) y mae gwybodaeth fwy cyfoes ar gael ar gyfer y dangosydd cenedlaethol sy'n ymwneud ag amddifadedd materol. Dengys y datganiad mwyaf diweddar, yn 2022 i 2023, fod oedolion anabl yn fwy tebygol o lawer o fyw mewn aelwyd mewn amddifadedd materol (25%) nag oedolion nad ydynt yn anabl (11%). Mae data ar oedolion yn cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn ôl pa un a oes gan rywun gyflwr neu salwch hirdymor ai peidio ar gael ar y dangosydd canlyniadau hefyd. Mae hwn yn fesur gwahanol i'r nodwedd warchodedig gan nad yw'n gwahaniaethu pa un a yw'r cyflwr neu'r salwch yn cyfyngu ar fywyd person o ddydd i ddydd.

Dengys y dadansoddiad hefyd fod data un flwyddyn yn ei gwneud yn bosibl dadgyfuno'r grŵp anabl ymhellach yn gategorïau 'anabl: cyfyngu ychydig' ac 'anabl: cyfyngu'n fawr'. Er bod cyfuno data ar draws blynyddoedd yn cynyddu manwl gywirdeb amcangyfrifon, mae data un flwyddyn 2019 i 2020 yn weddol fanwl gywir gyda ffin cyfeiliornad o lai na 2%.

Dengys Ffigur 2 isod sut y mae cyfuno pedair blynedd o ddata'n gwella manwl gywirdeb amcangyfrifon, gyda bariau cyfeiliornad culach yn cael eu dangos ar gyfer yr amcangyfrifon cyfunol o'i gymharu â'r amcangyfrifon un flwyddyn. Yn arbennig, roedd manwl gywirdeb amcangyfrifon ar gyfer y grwpiau 'anabl: cyfyngu'n fawr' ac 'anabl: cyfyngu ychydig' yn amlwg yn well. Roedd y patrymau a ddangosir ar draws grwpiau'n debyg ar gyfer data un flwyddyn a data cyfunol, gyda manwl gywirdeb gweddol dda yn y ddau achos. Mae hefyd yn dangos lle'r oedd gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau o ran cyfraddau amddifadedd materol. Er enghraifft, nid yw'r cyfyngau hyder (a ddangosir fel bariau cyfeiliornad yn y ffigur) sy'n gysylltiedig â'r grŵp 'anabl: cyfyngu'n fawr' yn gorgyffwrdd â rhai unrhyw grŵp arall. Felly, gall fod hyder cymharol bod y tebygolrwydd o fod mewn amddifadedd materol yn amlwg yn uwch ar gyfer y grŵp yma o'i gymharu â'r grwpiau eraill. Ar ben hynny nid yw'r

bariau cyfeiliornad ar gyfer y grŵp ‘ddim yn anabl’ yn gorgyffwrdd â’r grŵp ‘anabl: cyfyngu ychydig’ na’r grŵp ‘anabl: cyfyngu’n fawr’. Felly, roedd y gwahaniaethau rhwng y grwpiau’n arwyddocaol yn ystadegol a gellir dod i’r casgliad mai’r grŵp ‘anabl: cyfyngu’n fawr’ sydd fwyaf tebygol o brofi amddifadedd materol gyda’r grŵp ‘anabl: cyfyngu ychydig’ yn dilyn wedyn, tra mai’r grŵp ‘ddim yn anabl’ yw’r lleiaf tebygol o brofi amddifadedd materol.

**Ffigur 2: Canran yr oedolion anabl ac nad ydynt yn anabl 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020**




**Disgrifiad o Ffigur 2**

Dengys Ffigur 2 siart bar glystyrog, lorweddol o ganran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol wedi’i rhannu yn ôl ‘anabl: cyfyngu’n fawr’, ‘anabl: cyfyngu ychydig’ a ‘ddim yn anabl’. Dangosir bariau cyfeiliornad hefyd ar gyfer y data cyfunol pedair blynedd o 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020. Dengys y ffigur fod y rhai a oedd yn anabl ac yr oedd eu cyflwr yn cyfyngu’n fawr arnynt yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol. Roedd oedolion nad ydynt yn anabl yn llai tebygol o fod mewn amddifadedd materol.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Meintiau’r samplau: 45,590 (Data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020); 12,340 (Data un flwyddyn 2019 i 2020).

## Dangosyddion Cenedlaethol yn ôl statws priodasol a phartneriaeth sifil a math o aelwyd

Cafodd statws priodasol a math o aelwyd eu cynnwys yn y dadansoddiad cyfunol. Mae'r newidyn math o aelwyd yn darparu mewnwelediad ychwanegol gan ei fod yn manylu pa un a oes oedolion o oedran gweithio, pensiynwyr neu blant yn yr aelwyd. Caiff y math yma o ddadansoddiad ei ddefnyddio’n fwy eang wrth ddadansoddi tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Statws priodasol a phartneriaeth sifil

Mae’n bosibl llunio dadansoddiadau un flwyddyn o’r pedwar Dangosydd Cenedlaethol yn ôl statws priodasol / statws partneriaeth sifil ar gyfer rhai grwpiau. Dangosodd y gwaith dadansoddi fod amcangyfrifon yn seiliedig ar ddata un flwyddyn 2019 i 2020 ar gyfer y rhai sy’n briod, yn sengl, wedi ysgaru ac yn weddw’n weddol fanwl gywir, gyda chyfyngau hyder o lai na +/- 3%. Fodd bynnag, mae meintiau’r samplau sylfaenol yn rhy fach i lunio amcangyfrifon â manwl gywirdeb derbyniol o bobl mewn partneriaeth sifil. Gan hynny, mae’r ymatebwyr hyn wedi cael eu cydgrynhoi yn y categori priod. Roedd diffyg manwl gywirdeb yn gysylltiedig â data un flwyddyn ar gyfer y grŵp priod (ond wedi gwahanu) hefyd, gyda ffiniau cyfeiliornad o 6% neu fwy yn 2019 i 2020. Wrth gyfuno pedair blynedd o ddata, mae manwl gywirdeb yn gwella ar gyfer y rhai yn y grŵp wedi gwahanu, ond mae meintiau samplau bychain a chyfyngau hyder mawr yn dal i fodoli ar gyfer y rhai mewn partneriaeth sifil gofrestredig.


Nid yw’n bosibl llunio amcangyfrifon â manwl gywirdeb derbyniol ar gyfer y grwpiau 'digymell yn unig’ oherwydd niferoedd bychain iawn, felly nid yw’r un ohonynt wedi cael ei gynnwys yn y gwaith dadansoddi.

Cyhoeddir data ar amddifadedd materol yn ôl statws priodasol cyfreithiol cyfredol ymatebwyr ar ddangosydd canlyniadau’r Arolwg Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2023) ac mae’n dangos, yn 2022 i 2023, mai’r rhai a oedd yn briod ac yn weddw oedd leiaf tebygol o fod mewn amddifadedd materol (10%). Roedd y rhai a oedd yn

sengl neu wedi ysgaru fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol (22%). Y grŵp a oedd fwyaf tebygol o fod mewn amddifadedd materol oedd y rhai a oedd yn briod ond wedi gwahanu (36%). Mae'r data diweddaraf yn dangos patrwm tebyg i'r canfyddiadau a gyflwynir yn Ffigur 3.

Dengys Ffigur 3 amcangyfrifon mwy manwl gywir, gyda bariau cyfeiliornad culach, ar gyfer yr amcangyfrifon cyfunol pedair blynedd o'i gymharu â'r amcangyfrifon un flwyddyn. Mae hefyd yn dangos lle'r oedd gwahaniaethau go iawn rhwng grwpiau o ran cyfraddau amddifadedd materol. Er enghraifft, er bod gan y grŵp priod (ond wedi gwahanu) ffiniau cyfeiliornad mwy na'r grwpiau eraill, nid yw'r cyfyngau hyder (a ddangosir fel bariau cyfeiliornad yn y ffigur) sy'n gysylltiedig â'r grŵp hwn yn gorgyffwrdd â rhai unrhyw grŵp arall. Felly, gall fod hyder cymharol bod y tebygolrwydd o fod mewn amddifadedd materol yn uwch ar gyfer y grŵp wedi gwahanu o'i gymharu â'r grwpiau eraill. Fodd bynnag, gan bod y bariau cyfeiliornad ar gyfer y grŵp gweddw a phriod (a'r grŵp wedi ysgaru a sengl) yn gorgyffwrdd â'i gilydd, nid oedd y gwahaniaethau rhwng y grwpiau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol. Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth rhwng y grwpiau hyn o ran pa mor debygol oeddent o brofi amddifadedd materol.

**Ffigur 3: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl statws priodasol, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020**




**Disgrifiad o Ffigur 3**

Dengys Ffigur 3 siart bar glystyrog, lorweddol o ganran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl statws priodasol. Dangosir bariau cyfeiliornad hefyd ar gyfer y data cyfunol pedair blynedd o 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020. Mae'r ffigur yn dangos mai'r rhai a oedd yn briod (ond wedi gwahanu) oedd fwyaf tebygol o fod mewn amddifadedd materol ac mai'r rhai a oedd yn briod neu'n weddw oedd leiaf tebygol.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Meintiau'r samplau: 45,670 (Data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020); 12,360 (Data un flwyddyn 2019 i 2020).

Nodiadau:

1. Oherwydd maint bach y samplau sylfaenol, mae Partneriaethau Sifil wedi cael eu cydgrynhoi yn y categori Priod.

## Math o aelwyd

Mae'r dadansoddiad cyfunol yn cyflwyno data ar y rhai mewn amddifadedd materol wedi'i rannu yn ôl math o aelwyd. Roedd y mathau o aelwydydd a gafodd eu cynnwys fel a ganlyn:

- Pensiynwr sengl (dim plant)
- Pensiynwyr sy'n gwpl priod (dim plant)
- Person sengl, ddim yn bensiynwr (dim plant)
- Aelwyd yn cynnwys dau oedolyn gyda phlant
- Aelwyd yn cynnwys dau oedolyn (hyd at un pensiynwr) heb blant
- Aelwyd un rhiant
- Aelwydydd eraill

Nid oes unrhyw ddadansoddiadau yn ôl math o aelwyd wedi cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd ar gyfer y pedwar Dangosydd Cenedlaethol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.


Yn gyffredinol, dengys y gwaith dadansoddi ei bod hi'n bosibl llunio dadansoddiadau un flwyddyn o'r pedwar Dangosydd Cenedlaethol yn ôl y mathau o aelwydydd a restrir uchod. Roedd gan amcangyfrifon ar gyfer y ffigyrau hyn gyfyngau hyder o oddeutu +/- 3% neu lai gan mwyaf. Fodd bynnag, dengys data un flwyddyn 2019 i 2020 fod y categori 'pensiynwyr sy'n gwpl priod' heb gael ei ddangos ar gyfer amcangyfrifon o amddifadedd materol am bod maint y sampl yn llai na 30. Ar ben hynny, roedd data ar gyfer aelwydydd un rhiant yn gysylltiedig â chyfyngau hyder mwy ar +/- 4% neu 5%. Wrth gyfuno 4 blynedd o ddata, mae ansawdd yn gwella, gyda chyfyngau hyder yn lleihau i +/- 2% neu lai ar gyfer aelwydydd un rhiant.

Dengys Ffigur 4 fod cyfuno 4 blynedd o ddata'n ei gwneud yn bosibl cyflwyno amcangyfrifon o amddifadedd materol ar gyfer pensiynwyr sy'n gwpl priod â manwl gywirdeb da. Nid oedd hyn yn bosibl gyda'r dadansoddiad un flwyddyn ar gyfer 2019 i 2020. Dengys Ffigur 4 hefyd, hyd yn oed ar gyfer y data un flwyddyn, fod gwahaniaethau arwyddocaol rhwng grwpiau ar gyfer y mathau hynny o aelwydydd a oedd fwyaf tebygol o fod mewn amddifadedd materol. Nid yw bariau cyfeiliornad ar gyfer y mathau o aelwydydd sy'n cynnwys un rhiant, person sengl a dau oedolyn

gyda phlant yn gorgyffwrdd yn y dadansoddiad. Felly, roedd y gwahaniaethau rhwng y grwpiau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol a gellir dod i'r casgliad mai'r grŵp 'Un rhiant' sydd fwyaf tebygol o brofi amddifadedd materol gyda'r grwpiau 'Person sengl' a 'Dau oedolyn gyda phlant' yn dilyn wedyn. Yn yr un modd, nid yw'r bariau cyfeiliornad sy'n gysylltiedig â'r grwpiau 'Pensiynwyr sy'n gwpl priod' a 'Pensiynwr sengl' yn gorgyffwrdd â'i gilydd nac unrhyw fathau eraill o aelwydydd. Felly gellir dod i'r casgliad mai'r grŵp 'Pensiynwyr sy'n gwpl priod' sydd leiaf tebygol o brofi amddifadedd materol gyda'r grŵp 'Pensiynwr sengl' yn dilyn wedyn. Fodd bynnag, mae'r bariau cyfeiliornad ar gyfer y grŵp 'Dau oedolyn' a'r grŵp 'Math arall o aelwyd' yn gorgyffwrdd gan olygu nad oedd y gwahaniaethau rhwng y grwpiau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol. Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth

rhwng y grwpiau hyn o ran pa mor debygol oeddent o brofi amddifadedd materol.

**Ffigur 4: Canran y bobl 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl math o aelwyd, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020**




**Disgrifiad o Ffigur 4**

Dengys Ffigur 4 siart bar glystyrog, lorweddol o ganran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol wedi'i rhannu yn ôl math o aelwyd. Dangosir bariau cyfeiliornad hefyd ar gyfer y data cyfunol pedair blynedd o 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020. Dengys y ffigur mai

aelwydydd un rhiant oedd fwyaf tebygol o fod mewn amddifadedd materol gydag aelwydydd person sengl yn dilyn wedyn. Aelwydydd â phensiynwyr sy’n gwpl priod oedd leiaf tebygol o fod mewn amddifadedd materol o 2016 i 2017 i 2019 i 2020.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Meintiau’r samplau: 45,750 (Data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020); 12,380 (Data un flwyddyn 2019 i 2020).Nodiadau:

1: Mae amcangyfrif un flwyddyn 2019 i 2020 ar gyfer y grŵp pensiynwyr sy’n gwpl priod yn seiliedig ar faint sampl bach iawn. Gan hynny, nid yw’r bar data ‘2019 i 2020 yn unig’ wedi cael ei ddangos ar gyfer y grŵp yma.

## Dangosyddion Cenedlaethol yn ôl beichiogrwydd


Nid yw’n bosibl llunio dadansoddiadau â manwl gywirdeb derbyniol yn ôl beichiogrwydd ar gyfer unrhyw un o’r pedwar Dangosydd Cenedlaethol. Y prif reswm dros hyn yw bod meintiau’r samplau’n rhy fach hyd yn oed wrth gyfuno pedair blynedd o ddata. Fodd bynnag, ar gyfer rhai Dangosyddion Cenedlaethol efallai hefyd na fydd yn berthnasol nac yn bosibl rhannu ffigyrau yn ôl beichiogrwydd. Er enghraifft, nid yw gwybodaeth am fynegai màs y corff yn cael ei chyfrifo ar gyfer menywod beichiog, felly nid yw’n bosibl adrodd ar ganran y menywod â dau neu fwy o’r ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw yn ôl beichiogrwydd (lle mae ‘cynnal pwysau neu fynegai màs y corff iach’ wedi’i gynnwys fel un o’r pum ymddygiad iach o ran ffordd o fyw wrth gyfrifo’r dangosydd).

Cyhoeddwyd dadansoddiad cyfunol tebyg yn ôl beichiogrwydd gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2024. Roedd hwn yn archwilio data 2016 i 2017 i 2019 i 2020 yn erbyn ffordd o fyw, iechyd cyffredinol ac afiechyd oedolion (Llywodraeth Cymru, 2024).

Dengys Ffigur 5, er bod meintiau samplau cyfunol pedair blynedd 2016 i 2017 i 2018 i 2019 yn uwch na 30, ac felly nad oes angen peidio â’u dangos, fod yr amcangyfrif yn dal yn gysylltiedig â chyfyngau hyder mawr (+/- 10%). Mae’r ansicrwydd hwn yn golygu bod yr amcangyfrif ar gyfer menywod beichiog yn anfanwl iawn ac felly bod ei fudd yn gyfyngedig. Gan bod y bariau cyfeiliornad ar

gyfer y ddau grŵp yn gorgyffwrdd, nid yw'n bosibl dweud a oedd unrhyw wahaniaeth yn y tebygolrwydd o amddifadedd materol rhwng menywod beichiog a menywod nad oeddent yn feichiog.

**Ffigur 5: Canran y menywod 16 i 54 oed mewn amddifadedd materol yn ôl beichiogrwydd, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020**




**Disgrifiad o Ffigur 5**

Dengys Ffigur 5 siart bar glystyrog, lorweddol o ganran y menywod 16 i 54 oed mewn amddifadedd materol, wedi'i rhannu yn ôl beichiogrwydd. Mae bariau cyfeiliornad yn dangos bod yr amcangyfrif ar gyfer y grŵp beichiog yn anfanwl iawn.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Meintiau'r samplau: 6,500 (Data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020); 1,600 (Data un flwyddyn 2019 i 2020).

## Dangosyddion cenedlaethol yn ôl grŵp ethnig

Er bod rhai dadansoddiadau o grwpiau ethnig ar gael ar gyfer rhai Dangosyddion Cenedlaethol trwy ddangosydd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol (Llywodraeth

Cymru, 2023), nid oedd meintiau samplau un flwyddyn yn ddigon mawr i gyflwyno dadansoddiad ar lefel fwy gronynnog. Felly mae dadansoddiadau o ethnigrwydd sydd wedi eu cyhoeddi'n gyfyngedig i'r categorïau lefel-uchel canlynol:


- Gwyn Cymreig/ Seisnig/ Albanaidd/ Gwyddelig Gogledd Iwerddon
- Gwyn Gwyddelig/ Sipsiwn/ Teithiwr Gwyddelig neu gefndir gwyn arall
- Grŵp Du, Asiaidd neu Ethnig leiafrifol

Hyd yn oed ar y lefel gydgrynhoi uchel hon, roedd ansicrwydd o hyd yn yr amcangyfrifon un flwyddyn ar gyfer y ddau grŵp olaf. Er enghraifft, roedd y data ar gyfer 2022 i 2023 yn dangos bod gan ganran yr oedolion o'r grŵp Du, Asiaidd neu Ethnig leiafrifol a oedd yn cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos (47%) gyfyngau hyder o fwy na +/- 6%.

Dengys y dadansoddiad cyfunol ei bod hi'n bosibl deillio rhai amcangyfrifon mewn perthynas â'r Dangosyddion Cenedlaethol yn ôl y pum categori grŵp ethnig mwy gronynnog a amlinellir yn adran 2.27 wrth gyfuno pedair blynedd o ddata. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad yn dal i fod yn gyfyngedig.

Fel a ddangosir isod yn Ffigur 6, mae data cyfunol pedair blynedd 2016 i 2017 i 2019 i 2020 yn darparu amcangyfrifon digon manwl gywir ar gyfer amddifadedd materol wedi'u rhannu yn ôl y pum grŵp ethnig lefel-uchel. Fodd bynnag, roedd amcangyfrifon cyfunol yn gysylltiedig â chyfyngau hyder mawr (mwy na +/- 6%) ar gyfer y grwpiau 'Cymysg neu Luosog', 'Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig' ac 'Ethnig arall'. Nid yw'r bariau cyfeiliornad ar gyfer y grŵp ethnig 'Gwyn' yn gorgyffwrdd ag unrhyw grŵp ethnig arall. Felly gellir dod i'r casgliad bod y grŵp ethnig 'Gwyn' yn llai tebygol o brofi amddifadedd materol na grwpiau ethnig eraill. Fodd bynnag, roedd gorgyffwrdd arwyddocaol rhwng y bariau cyfeiliornad ar gyfer 'Grŵp ethnig arall', y grŵp 'Cymysg neu Luosog' a'r grŵp 'Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig'. Golyga hyn na ellir adrodd â hyder bod unrhyw un o'r grwpiau ethnig hyn yn fwy neu'n llai tebygol o fyw mewn amddifadedd materol na'r lleill.

**Ffigur 6: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl grŵp ethnig lefel-uchel, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020.**




**Disgrifiad o Ffigur 6**

Dengys Ffigur 6 siart bar glystyrog, lorweddol o ganran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol, wedi'i rhannu yn ôl grŵp ethnig lefel-uchel. Dangosir bariau cyfeiliornad hefyd ar gyfer y data cyfunol pedair blynedd o 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020. Dengys y ffigur fod amddifadedd materol ar ei uchaf ar gyfer y rhai yn y grŵp lefel-uchel 'Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig' ac ar ei isaf ar gyfer y grŵp 'Gwyn'.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Meintiau'r samplau: 45,720 (Data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020); 12,380 (Data un flwyddyn 2019 i 2020).

Nodiadau:

1: Ar gyfer y grwpiau 'Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig', 'Arall: Arabaidd, unrhyw grŵp ethnig arall', a 'Cymysg neu Luosog', ni ddangoswyd data un flwyddyn (2019 i 2020) oherwydd meintiau bychain y samplau. Nid oes bar data '2019 i 2020 yn unig' ar gyfer y grwpiau hyn.

## Dangosyddion cenedlaethol yn ôl crefydd

Mae rhai dadansoddiadau lefel-uchel ar grefydd ar gael ar gyfer y Dangosydd Cenedlaethol ar gyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon trwy ddangosydd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2023). Mae'r dadansoddiadau un flwyddyn yn ôl crefydd sydd wedi eu cyhoeddi'n gyfyngedig i'r categorïau lefel-uchel canlynol:

- Dim crefydd
- Cristnogaeth (pob enwad)
- Crefydd arall

Hyd yn oed ar y lefel gydgrynhoi uchel hon, ceir ansicrwydd o hyd yn amcangyfrif un flwyddyn 2022 i 2023 ar gyfer y grŵp 'Crefydd arall', gyda chyfwng hyder o fwy na +/- 6%.


Dengys y dadansoddiad cyfunol nad oedd y data o gymorth i lunio amcangyfrifon digon manwl gywir o Ddangosyddion Cenedlaethol wedi eu rhannu yn ôl yr wyth grŵp crefydd a ddisgrifir yn adran 2.35, hyd yn oed pan oedd pedair blynedd o ddata'n cael eu crynhoi. Fodd bynnag, mae rhai dadansoddiadau'n bosibl pan fo'r wyth grŵp crefydd yn cael eu cydgrynhoi yn y pedwar grŵp canlynol: Dim crefydd, Cristnogaeth, Islam a 'Crefydd arall'[1], fel a ddangosir yn Ffigur 7. Mae'r grŵp Crefydd arall yn cynnwys y canlynol: Bwdhaeth, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Siciaeth, ac unrhyw grefydd arall.

Wrth fwrw golwg ar amddifadedd materol yn ôl y pedwar grŵp crefydd lefel-uchel, roedd data un flwyddyn yn seiliedig ar feintiau samplau digonol ac nid oedd angen peidio â'u dangos. Fodd bynnag, roedd gan amcangyfrifon un flwyddyn 2019 i 2020 gyfyngau hyder mawr ar gyfer y grwpiau Islam a 'crefydd arall' (+/- 9% a 6%). Dengys Ffigur 7 hefyd fod amcangyfrifon yn fwy manwl gywir ar gyfer yr amcangyfrifon cyfunol pedair blynedd ond dengys gyfyngau hyder o +/- 5% ar gyfer y grŵp Islam. Serch hynny, dengys y canlyniadau fod amddifadedd materol yn uwch ar gyfer y grŵp Islam o'i gymharu â'r grwpiau eraill, a bod y gwahaniaeth hwn yn debygol o fod yn arwyddocaol yn ystadegol o ystyried nad oedd y bariau cyfeiliornad ar gyfer y grŵp hwn yn gorgyffwrdd â rhai unrhyw grŵp arall. Fodd

bynnag, mae'r bariau cyfeiliornad ar gyfer y grwpiau 'Dim crefydd' a 'Crefydd arall' yn gorgyffwrdd gan olygu na ellir adrodd bod y naill o'r grwpiau hyn yn fwy neu'n llai tebygol o brofi amddifadedd materol na'r llall.

Ar gyfer y grwpiau Cristnogaeth a 'dim crefydd', roedd manwl gywirdeb yr amcangyfrifon yn uchel, hyd yn oed wrth ddangos data un flwyddyn 2019 i 2020.

**Ffigur 7: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl crefydd, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020.**




**Disgrifiad o Ffigur 7**

Dengys Ffigur 7 siart bar glystyrog, lorweddol o ganran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol, wedi'i rhannu yn ôl grŵp ethnig. Dangosir bariau cyfeiliornad hefyd ar gyfer y data cyfunol pedair blynedd o 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020. Dengys y ffigur fod amddifadedd materol yn cael ei brofi gan gyfran uwch o Foslemiaid na'r rhai heb unrhyw grefydd, neu'r rhai â 'chrefydd arall'. Cristnogion oedd leiaf tebygol o brofi amddifadedd materol.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Meintiau’r samplau: 41,170 (Data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020); 11,350 (Data un flwyddyn yn unig 2019 i 2020).

## Dangosyddion cenedlaethol yn ôl rhyw


Dengys y data cyfunol fod meintiau samplau’r Arolwg Cenedlaethol yn ddigon mawr i gyflwyno dadansoddiad un flwyddyn yn ôl rhyw ar gyfer y pedwar Dangosydd Cenedlaethol, gyda chyfyngau hyder o +/- 2% neu lai. Mae data wedi’i rannu yn ôl rhyw eisoes wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer pob un o’r pedwar Dangosydd Cenedlaethol ac mae ar gael ar ddangosydd canlyniadau’r Arolwg Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2023) a thrwy’r dangosfwrdd data Llesiant Cymru: Dangosyddion Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2022) (sy’n defnyddio data a gyhoeddwyd ar StatsCymru (Llywodraeth Cymru, 2024)).

Dengys y data diweddaraf, yn 2022 i 2023:

- Fod 19% o fenywod mewn amddifadedd materol, o’i gymharu â 12% o wrywod.
- Bod benywod yn fwy tebygol o fod â dau o’r ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw (93%) na gwrywod (91%).
- Bod 12% o fenywod yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg yn feunyddiol ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o’i gymharu â 9% o wrywod.
- Bod gwrywod yn fwy tebygol o gyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon o leiaf deirgwaith yr wythnos (43%) na benywod (35%).

Dengys Ffigur 8, er bod cyfuno pedair blynedd o ddata wedi gwella manwl gywirdeb amcangyfrifon ar gyfer amddifadedd wedi’u rhannu yn ôl rhyw, fod manwl gywirdeb eisoes yn uchel ar gyfer data un flwyddyn 2019 i 2020 ac nad oedd y bariau cyfeiliornad yn gorgyffwrdd rhwng grwpiau. Golyga hyn y gellir adrodd bod y gwahaniaeth mewn cyfraddau amddifadedd materol ar gyfer gwrywod a benywod yn arwyddocaol yn ystadegol.

**Ffigur 8: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl rhyw, data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020**




### Disgrifiad o Ffigur 8

Dengys Ffigur 8 siart bar glystyrog, lorweddol o ganran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol, wedi'i rhannu yn ôl rhyw. Dangosir bariau cyfeiliornad hefyd ar gyfer y data cyfunol pedair blynedd o 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020. Dengys y ffigur fod benywod yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol na gwrywod. Dengys hefyd fod y data'n ddigon manwl gywir ar gyfer y data un flwyddyn a'r data cyfunol.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Meintiau'r samplau: 45,750 (Data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020); 12,380 (Data un flwyddyn yn unig 2019 i 2020).

## Dangosyddion Cenedlaethol yn ôl cyfeiriadedd rhywiol

Ar gyfer y Dangosydd Cenedlaethol ar gyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon, mae rhai dadansoddiadau wedi eu cyhoeddi yn ôl cyfeiriadedd rhywiol ar gael ar gyfer data 2017 i 2018 a 2019 i 2020 (ar gael trwy ddangosydd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2023)). Fodd bynnag, mae'r dadansoddiadau un flwyddyn hyn yn gyfyngedig i'r grwpiadau deuaidd canlynol:


- Heterorywiol neu Strêt;
- ‘Hoyw neu Lesbiaidd, Deurywiol neu Gyfeiriadedd rhywiol arall[2]’.

I atal yr ymatebwyr a oedd yn uniaethu fel ‘Arall’ rhag cael eu hymyleiddio ymhellach, cafodd y categori hwn ei ailenwi’n ‘Cyfeiriadedd Rhywiol Arall’. Fel a drafodwyd yn flaenorol, gall y categori ‘Arall’ gael ei ystyried yn broblemus a gellir cael ei fod yn canoli’r mwyafrif, sef pobl ‘Heterorywiol neu strêt’ yn yr achos hwn. Nid yw ailenwi’r categori ‘Arall’ yn ‘Cyfeiriadedd Rhywiol Arall’ yn datrys y mater hwn yn barhaol. Nid oes digon o ddata i’w rannu yn ôl y grwpiau llai hyn i wneud llawer mwy na hyn, felly nid yw’n cynyddu manwl gywirdeb.

Hyd yn oed ar y lefel gydgrynhoi uchel hon, roedd ansicrwydd o hyd yn yr amcangyfrifon un flwyddyn ar gyfer y grŵp ‘Hoyw neu Lesbiaidd, Deurywiol neu Gyfeiriadedd rhywiol arall’, gyda ffin cyfeiliornad o 5% neu fwy. Dengys y dadansoddiad cyfunol ei bod hi’n bosibl deillio amcangyfrifon ar gyfer y Dangosyddion Cenedlaethol yn ôl y pedwar grŵp cyfeiriadedd rhywiol mwy gronynnog a amlinellir yn adran 2.27 wrth gyfuno pedair blynedd o ddata. Fodd bynnag, mae’r amcangyfrifon yn dal i fod yn gyfyngedig o ran eu manwl gywirdeb.

Dengys Ffigur 9 fod cyfuno pedair blynedd o ddata o 2016 i 2017 i 2019 i 2020 yn ategu dadansoddiad manylach o amddifadedd materol yn ôl cyfeiriadedd rhywiol o’i gymharu â dadansoddiad un flwyddyn 2019 i 2020. Fodd bynnag, roedd amcangyfrifon cyfunol yn dal i fod yn gysylltiedig â chyfyngau hyder o +/- 5% neu fwy ar gyfer y grwpiau ‘Deurywiol’ a ‘Cyfeiriadedd rhywiol arall’. Mae’r bariau cyfeiliornad sy’n gorgyffwrdd ar gyfer y grŵp ‘Cyfeiriadedd rhywiol arall’ a’r grŵp ‘Deurywiol’ yn golygu na ellir adrodd â hyder bod y naill o’r grwpiau hyn yn fwy neu’n llai tebygol o fyw mewn amddifadedd materol na’r llall. Yn yr un modd, oherwydd bariau cyfeiliornad sy’n gorgyffwrdd ni ellir dod i’r casgliad bod gwahaniaeth rhwng y grwpiau ‘Heterorywiol neu Strêt’ a ‘Hoyw neu Lesbiaidd’.

**Ffigur 9: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol yn ôl cyfeiriadedd rhywiol, 2016 i 2017 to 2019 i 2020 data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020**




**Disgrifiad o Ffigur 9**

Dengys Ffigur 9 siart bar glystyrog, lorweddol o ganran yr oedolion 16 oed a throsodd mewn amddifadedd materol, wedi'i rhannu yn ôl cyfeiriadedd rhywiol. Dangosir bariau cyfeiliornad hefyd ar gyfer y data cyfunol pedair blynedd o 2016 i 2017 i 2019 i 2020 a data un flwyddyn 2019 i 2020. Dengys y ffigur fod y rhai yn y grŵp 'Cyfeiriadedd rhywiol arall' neu'r grŵp 'Deurywiol' yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol na'r rhai yn y grwpiau 'Hoyw neu Lesbiaidd', neu 'Heterorywiol neu Strêt'.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Meintiau'r samplau: 41,170 (Data cyfunol 2016 i 2017 i 2019 i 2020); 11,380 (Data un flwyddyn yn unig 2019 i 2020).

Nodiadau:

1: Mae amcangyfrif un flwyddyn 2019 i 2020 ar gyfer y grŵp ‘Cyfeiriadedd rhywiol arall’ yn seiliedig ar faint sampl bach iawn. Gan hynny, nid yw’r bar data ‘2019 i 2020 yn unig’ wedi cael ei ddangos ar gyfer y grŵp yma.

# Casgliadau ac argymhellion

Mae'r adolygiad hwn o Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi amcanu at asesu i ba raddau y gellir defnyddio'r Arolwg Cenedlaethol i fesur y canlyniadau ar bynciau'r arolwg ar gyfer grwpiau cydraddoldeb yng Nghymru. Mae'r bennod hon yn nodi argymhellion ynghylch sut i wella manwl gywirdeb data cydraddoldeb a gesglir mewn iteriadau o'r arolwg yn y dyfodol yn seiliedig ar y canfyddiadau.

## Meintiau'r samplau a dyluniad yr arolwg

Mae'r dadansoddiad y manylir arno ym mhennod 4 yn dangos, yn gyffredinol, bod cyfuno blynyddoedd lluosog o ddata'r Arolwg Cenedlaethol yn gwella manwl gywirdeb amcangyfrifon a ddeillir. Fodd bynnag, ceir rhai cyfyngiadau o hyd. Hyd yn oed ar ôl cyfuno pedair blynedd o ddata, nid oedd meintiau'r holl samplau sylfaenol yn ddigon i ddarparu dadansoddiadau ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig ar lefel ronynogrwydd fwy manwl nag a gyhoeddir yn rheolaidd ar hyn o bryd. Yn arbennig, dangosodd y dadansoddiad fod meintiau bychain y samplau'n dal i fod yn broblem ar gyfer grwpiau ethnig leiafrifol a'r rhai sy'n uniaethu o fewn grwpiau cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol. Ar ben hynny, roedd cyfyngau hyder yn dal i fod yn fawr ar gyfer rhai grwpiau, gan ei gwneud hi'n amhosibl casglu a oedd gwahaniaethau yn y sampl a gyflawnwyd yn adlewyrchu gwahaniaethau yn y boblogaeth ehangach ynteu a oeddent o ganlyniad i wall samplu. Gan hynny, argymhellir bod Llywodraeth Cymru'n archwilio dichonoldeb cynyddu maint sampl graidd yr Arolwg Cenedlaethol ar y cyfan yn y lle cyntaf.

Fodd bynnag, hyd yn oed gyda sampl graidd sy'n fwy o faint gall meintiau samplau is-grwpiau nodweddion gwarchodedig ddal i fod yn rhy fach i ategu dadansoddiad manwl yn ôl yr is-grwpiau hynny. Felly, argymhellir hefyd bod Llywodraeth Cymru'n archwilio opsiynau i hybu meintiau samplau ar gyfer yr is-grwpiau penodol hyn.

Roedd y dadansoddiad y manylir arno ym mhennod 4 yn gyfyngedig i bedwar Dangosydd Cenedlaethol. Dewiswyd y dangosyddion hyn oherwydd bod y cwestiynau a ddefnyddir i'w goleuo wedi cael eu gofyn ym mhob un o bedair blynedd yr arolwg gan felly roi'r sampl gyfunol fwyaf posibl fel sail. Defnyddir yr Arolwg Cenedlaethol fel ffynhonnell ar gyfer nifer o Ddangosyddion Cenedlaethol eraill. Fodd bynnag, er mwyn ei gwneud yn bosibl cynnwys mwy o bynciau yn yr

arolwg, nid yw'r cwestiynau sy'n tanategu rhai dangosyddion yn cael eu gofyn bob blwyddyn; a dim ond i is-sampl o ymatebwyr y gofynnir rhai cwestiynau.

I gynyddu i'r eithaf botensial cyfuno blynyddoedd yr arolwg fel offeryn dadansoddi, gallai Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru leihau nifer y pynciau a gynhwysir a gofyn cwestiynau sy'n tanategu'r Dangosyddion Cenedlaethol i fwy o ymatebwyr (gan flaenoriaethu ymatebwyr o grwpiau cydraddoldeb heb gynrychiolaeth ddigonol). Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ofyn cwestiynau sy'n berthnasol i'r Dangosyddion Cenedlaethol yn fwy mynych i gynyddu maint y data.

## Nodweddion gwarchodedig

Er mwyn i Gymru aros gyfuwch â'r DU yn fwy eang lle mae casglu data yn y cwestiwn, mae angen i'r Arolwg Cenedlaethol weithredu holl argymhellion y Tasglu Data Cynhwysol (IDTF) (Awdurdod Ystadegau'r DU, 2021) sy'n canolbwyntio ar yr egwyddor 'peidio â gadael neb ar ôl'. Argymhelliad tri o'u hadroddiad hwy yw'r mwyaf perthnasol yn y cyd-destun hwn ac mae'n nodi:

> 'Sicrhau bod gwybodaeth am yr holl grwpiau'n cael ei chasglu mewn modd cadarn ar draws agweddau allweddol ar fywyd yn nata'r DU ac adolygu arferion yn rheolaidd'.

Fel a nodir ym mhennod 3, ar hyn o bryd mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu data ar saith allan o naw nodwedd warchodedig (oedran, anabledd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol). Mae hefyd yn cynnwys cwestiynau am ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol sy'n rhan o nodwedd warchodedig hil. Nid yw gwybodaeth am yr holl nodweddion gwarchodedig wedi bod yn cael ei chasglu'n gyson yn yr Arolwg Cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r dull o gasglu data ar ryw yn yr Arolwg Cenedlaethol wedi bod trwy nifer o newidiadau dros y blynyddoedd oherwydd newidiadau i'r safonau wedi'u cysoni a bod gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol heb gael ei chasglu yn ystod blynyddoedd Covid-19 oherwydd newid yn y dull.

Er mwyn i ddadansoddiad cyfunol fod yn fuddiol ar gyfer nodweddion gwarchodedig lle mae'r is-grwpiau'n arbennig o fach (megis ethnigrwydd a chyfeiriadedd rhywiol) dylid ystyried casglu gwybodaeth am bynciau perthnasol (e.e. cwestiynau am bynciau'r dangosyddion cenedlaethol) yn flynyddol i'w gwneud yn haws cynnal

dadansoddiad cyfunol ar draws cwestiynau craidd. Fodd bynnag, y rheswm pam nad yw cwestiynau am bynciau'r Dangosyddion Cenedlaethol yn cael eu gofyn bob blwyddyn ar hyn o bryd yw er mwyn gallu gwneud lle i fwy o bynciau yn yr arolwg. Mae gofyn cwestiynau am y pynciau hyn yn fwy mynych yn rhywbeth y byddai angen ei ystyried ochr yn ochr â'r ffaith y byddai hyn yn arwain at ofyn cwestiynau am lai o bynciau ar y cyfan.

Nid oes data'n cael ei gasglu ar ailbennu rhywedd ar hyn o bryd. Hefyd, mae amcangyfrifon ar gyfer hunaniaeth rhywedd yng Nghymru yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021 yn awgrymu y byddai unrhyw boblogaethau ar gyfer y grŵp hwn y byddai gwybodaeth yn cael ei chasglu amdanynt yn yr Arolwg Cenedlaethol yn fach iawn. Byddai hyn, ynghyd â'r canfyddiadau ynglŷn ag isafswm meintiau samplau sy'n ofynnol er mwyn i gyfuno fod yn llwyddiannus, yn golygu hyd yn oed wrth gyfuno blynyddoedd data rheolaidd ei bod yn annhebygol y byddai Arolwg Cenedlaethol Cymru'n gallu darparu data digon manwl gywir ar nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd. Felly, fel a amlinellir yn argymhelliad 2 isod, gallai Llywodraeth Cymru archwilio a allai unrhyw ddulliau hybu ar y cyd â chyfuno ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol gynyddu dichonoldeb casglu data defnyddiadwy ar ailbennu rhywedd trwy'r Arolwg Cenedlaethol gyda'r ddealltwriaeth y gallai ansawdd y data gael ei leihau. Cyn casglu unrhyw ddata ar hunaniaeth rhywedd, dylid ystyried hynny ochr yn ochr â chanllawiau'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau a grybwyllir yn yr adroddiad hwn ac yn ganllawiau'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd i gasglu data rhyw, rhywedd a thraws, fel y dynodir yn argymhelliad 3.

Fel a nodir ym mhennod 3, mae'r cwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol a ddefnyddir i benderfynu a yw ymatebydd yn anabl ai peidio'n cyd-fynd â'r diffiniad o 'anabledd' yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellir gwneud i'r cwestiynau gyd-fynd yn fwy â'r model cymdeithasol o anabledd. Bydd casglu data yn y ffordd yma'n adnabod nifer y bobl â chyflyrau iechyd penodol ond bydd hefyd yn amlygu ble y mae'r anghydraddoldeb, anfantais neu wahaniaethu'n digwydd oherwydd rhwystrau mewn cymdeithas. Bydd hefyd yn darparu tystiolaeth hollbwysig o ran pa bolisïau, ymyriadau ac addasiadau y mae eu hangen i ddileu'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl. Mae ymchwil yn cael ei chynnal ar hyn o bryd i ddatblygu cwestiynau arolwg sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol o anabledd. Unwaith y bydd canfyddiadau'r ymchwil hon ar gael, dylai Arolwg Cenedlaethol

Cymru adolygu ac ystyried ymgorffori'r cwestiynau hyn, gan felly gyd-fynd â barn Llywodraeth Cymru a chasglu data gwell ar namau/cyflyrau iechyd a rhwystrau sy'n anablu.

## Nodweddion cysylltiedig

Byddai ychwanegu cwestiynau mwy penodol at yr Arolwg Cenedlaethol am gefndir economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn bosibl cynnal dadansoddiad â phwyslais mwy manwl ar fod yn agored i niwed o ganlyniad i statws economaidd-gymdeithasol a chostau byw. Gallai hyn ei gwneud yn bosibl dadansoddi effaith gylchol anfantais economaidd-gymdeithasol a'r modd y mae'n parhau o un genhedlaeth i'r llall. I gyrraedd safon wedi'i chysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol, byddai angen cyflwyno cwestiynau ar alwedigaeth a lefel addysg rhieni a byddent yn ychwanegu haen bellach at y data ar amddifadedd materol ac ardal sydd eisoes yn cael ei gasglu yn yr Arolwg Cenedlaethol. Fodd bynnag, o ystyried bod terfyn amser ar gyfer yr arolwg ac felly bod nifer y cwestiynau y gellir eu cynnwys yn gyfyngedig, mae ychwanegu cwestiynau lluosog i ddeillio cefndir economaidd-gymdeithasol yn annhebygol o fod yn opsiwn dichonadwy. Felly, fe argymhellir bod y potensial i gysylltu'r Arolwg Cenedlaethol â ffynonellau data eraill sydd eisoes yn casglu'r wybodaeth hon yn cael ei archwilio'n fwy manwl.

Trwy weithredu'r argymhellion hyn, bydd yr Arolwg Cenedlaethol yn gwella ei ddefnyddioldeb ar gyfer deall canlyniadau'r arolwg mewn perthynas â grwpiau cydraddoldeb yng Nghymru. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar ansawdd a gronynogrwydd data cydraddoldeb a gesglir mewn iteriadau o'r arolwg yn y dyfodol, gan gynnwys ar gyfer y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol, gan ddarparu tystiolaeth well ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisi ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus y mae ganddi gyfrifoldebau amdano.

### Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gynyddu sampl graidd yr Arolwg Cenedlaethol ar y cyfan ynghyd â chynyddu cynrychiolaeth trwy gamau hybu samplau a dargedir i greu canlyniadau arolwg mwy amserol mewn perthynas â chydraddoldeb gan ddefnyddio'r Arolwg Cenedlaethol. Byddai angen treialu'r ail o'r rhain cyn ei roi ar waith ond byddai'n debygol o fod yn fwy cost-effeithiol, er y

byddai mwy na thebyg yn arwain at gyfaddawdu o ran ansawdd yr arolwg. Dylid ystyried ystod o nodweddion gwarchodedig fel rhan o archwilio camau hybu.

### Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gofyn cwestiynau sy’n tanategu Dangosyddion Cenedlaethol i fwy o ymatebwyr i’r Arolwg Cenedlaethol (gan flaenoriaethu ymatebwyr sydd o grwpiau cydraddoldeb heb gynrychiolaeth ddigonol heb orlethu’r grwpiau hyn). Dylai’r holl gwestiynau sy’n tanategu Dangosyddion Cenedlaethol gael eu gofyn yn fwy mynych i gynyddu i’r eithaf fanteision cyfuno ar draws grwpiau cydraddoldeb lle y bo’n bosibl (cydnabyddir bod lefel uchel o alw am bynciau eraill hefyd o fewn amser cyfyngedig ar y cyfan ar gyfer yr arolwg).

### Argymhelliad 3

Mae canllawiau yn cael eu datblygu ar gwestiynau rhyw, rhywedd a thrawsrywedd gan yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd. Os oes goblygiadau i'r Arolwg Cenedlaethol, dylai Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru adolygu ei ddull o gasglu data ar y pynciau hyn. Dylid ystyried unrhyw ganllawiau wedi'u diweddaru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau ar ryw a rhywedd ochr yn ochr ag unrhyw argymhellion gan yr Unedau Tystiolaeth.

### Argymhelliad 4

Dylai Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru adolygu canfyddiadau’r ymchwil a gynhelir ar hyn o bryd gan yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd i ddatblygu cwestiynau sy’n gyson â’r model cymdeithasol o anabledd ar fathau o namau a rhwystrau sy’n anablu ac ystyried mabwysiadu’r cwestiynau hyn.

### Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio a ellir cysylltu data’r Arolwg Cenedlaethol ymhellach trwy SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw) â ffynonellau data sy’n casglu data cydraddoldeb ychwanegol, er enghraifft, ar gefndir economaidd-gymdeithasol ymatebwyr. O ganlyniad, gallai ddadansoddiad ychwanegol gael ei gyflawni ar ystod ehangach o nodweddion cydraddoldeb.

# Cyfeiriadau


1. Anabledd Cymru. (dim dyddiad). Model Cymdeithasol.
2. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (dim dyddiad). Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
3. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2021). Gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd.
4. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2023). A yw Cymru'n Decach? Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
5. Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth (2024) Canllawiau ynghylch Cysoni Data ar Hunaniaeth Rhywedd.
6. Safon wedi'i chysoni ar gyfer data hunaniaeth rhywedd – Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth.
7. GOV.UK. (dim dyddiad). Diffiniad o anabledd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
8. GOV.UK. (dim dyddiad). Discrimination: your rights.
9. Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth. (2011). Safon wedi'i chysoni ar gyfer ethnigrwydd.
10. Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth. (2019). Canllawiau cysoni rhyw a rhywedd.
11. Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth. (2019). Safon wedi'i chysoni ar gyfer data cyfeiriadedd rhywiol.
12. Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth. (2020). Safon wedi'i chysoni ar gyfer cyfyngiadau ar weithgareddau.
13. Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth. (2020). Safon wedi'i chysoni ar gyfer ethnigrwydd.
14. Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth. (2020). Safon wedi'i chysoni ar gyfer cyflyrau iechyd a salwch hirdymor.
15. Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth. (2020). Safon wedi'i chysoni ar gyfer statws priodasol neu bartneriaeth sifil.
16. Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth. (2020). Canllawiau cysoni beichiogrwydd a mamolaeth.
17. Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth. (2020). Safon wedi'i chysoni ar gyfer crefydd.
18. Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth. (2021). Safon wedi'i chysoni ar gyfer hunaniaeth genedlaethol.
19. Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth. (2023). Adolygiad o safonau wedi'u cysoni ar gyfer data anabledd.
20. Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth. (2023). Safon wedi'i chysoni ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol.
21. Hutt, J., 2023. Datganiad Ysgrifenedig: Y Diweddaraf am y Tasglu Hawliau Pobl Anabl. Llyw.cymru.
22. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Datblygu safonau cytûn ar gyfer rhyw a hunaniaeth rhywedd
23. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018) Datblygu'r cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol ar gyfer Cyfrifiad 2021.

24. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2022). Hunaniaeth genedlaethol, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021.
25. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2023). Hunaniaeth o ran rhywedd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021.
26. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (dim dyddiad). Priodi, cyd-fyw a phartneriaethau sifil.
27. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2024). Gwybodaeth am ansawdd data ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd ar gyfer Cyfrifiad 2021.
28. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (dim dyddiad) Datblygu'r cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol ar gyfer Cyfrifiad 2021.
29. Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. (2023). Official Statistics in Development.
30. Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. (2024). Collecting and reporting data about sex and gender identity in official statistics: A guide for official statistics producers. Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau.
31. Scope. (2024). Social Model of Disability.
32. Smith, L. a Goddard, L., 2021. Cymru sy'n Fwy Cyfartal – Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Llywodraeth Cymru.
33. Llywodraeth y DU. (2010). Deddf Cydraddoldeb 2010.
34. Llywodraeth y DU. (2013). Discrimination: your Rights.
35. Awdurdod Ystadegau'r DU. (2021). Adroddiad Argymhellion y Tasglu Data Cynhwysol.
36. Awdurdod Ystadegau'r DU. (2021). Gadael neb ar ôl: Sut y gallwn fod yn fwy cynhwysol yn ein data – Crynodeb Gweithredol.
37. Awdurdod Ystadegau'r DU. (2022). Cynllun gwaith Tîm Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS).
38. Awdurdod Ystadegau'r DU. (2022). Cynllun Gweithredu'r Tasglu Data Cynhwysol.
39. Llywodraeth Cymru. (2019). Llywodraeth Cymru yn derbyn Adroddiad Cydraddoldeb Rhywiol 'Gwneud Nid Dweud'.
40. Llywodraeth Cymru. (2020). Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau: cynllun gweithredu.
41. Llywodraeth Cymru. (2020). Adroddiad is-grŵp Economaidd-gymdeithasol COVID-19 Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.
42. Llywodraeth Cymru. (2021). Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19.
43. Llywodraeth Cymru, 2021. Arolwg Cenedlaethol Cymru.
44. Llywodraeth Cymru, 2021. Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau.
45. Llywodraeth Cymru. (2021). Arolwg Cenedlaethol Cymru: adroddiad ansawdd, Ionawr 2021 ymlaen.
46. Llywodraeth Cymru. (2022). Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.
47. Llywodraeth Cymru. (2022). Strategaeth yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd.
48. Llywodraeth Cymru. (2022). Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021).
49. Llywodraeth Cymru. (2022). Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol.

50. Llywodraeth Cymru. (2022). Rydyn ni wedi ymrwymo i wreiddio’r Model Cymdeithasol o Anabledd a gwared yr holl rwystrau i annibyniaeth pobl anabl.
51. Llywodraeth Cymru. (2022). Datganiad Ysgrifenedig: Polisi Cymunedau.
52. Llywodraeth Cymru. (2023). Ffordd o fyw oedolion o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 i 2019-20: Dadansoddiad Ychwanegol yn ôl Anabledd, Grŵp Ethnig, Statws Priodasol, Crefydd, Cyfeiriadedd Rhywiol.
53. Llywodraeth Cymru. (2023). Canlyniadau pobl anabl mewn iechyd, tai, addysg a statws economaidd (Cyfrifiad 2021).
54. Llywodraeth Cymru. (2023). Gwahaniaethau grŵp ethnig mewn iechyd, tai, addysg a statws economaidd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021).
55. Llywodraeth Cymru. (2023). Cynllun LHDTC+ Cymru.
56. Llywodraeth Cymru. (2023). Arolwg Cenedlaethol Cymru.
57. Llywodraeth Cymru. (2023). Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021).
58. Llywodraeth Cymru, 2024. Ffyrdd o fyw, iechyd cyffredinol ac afiechyd oedolion o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016 i 17 i 2019 i 20: dadansoddiad ychwanegol yn ôl statws beichiogrwydd, menywod 16 i 54 oed.
59. Llywodraeth Cymru. (2024). Arolwg Cenedlaethol Cymru.
60. Llywodraeth Cymru. (2024). Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion.

# Atodiad A: Tabl 6. Nodweddion cydraddoldeb a dadansoddiadau a ddefnyddiwyd yn y gwaith dadansoddi

Mae'r tabl hwn yn amlinellu'r dadansoddiadau yn ôl nodweddion cydraddoldeb y mae Atodiad A yn seiliedig arnynt.

Cyfyngir ar ddadansoddiadau manylach gan feintiau bychain y samplau a/ neu ddyluniad yr arolwg.

Yn y tabl mae 'Tonnau' yn cyfeirio at flynyddoedd yr Arolwg o 2016 i 2020, lle mae 1 yn cyfeirio at 2016 i 2017 a 4 yn cyfeirio at 2019 i 2020.

| Nodwedd Cydraddoldeb | Categorïau | Tonnau ar gael |
|---|---|---|
| Grŵp oedran: 7 categori | 16-24;<br>25-34;<br>35-44;<br>45-54;<br>55-64;<br>65-74;<br>75+; | 1,2,3,4 |
| Anabledd: 2 gategori | Anabl;<br>Ddim yn anabl | 1,2,3,4 |
| Grŵp ethnig: 5 categori | Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig;<br>Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd;<br>Grwpiau ethnig cymysg neu luosog;<br>Gwyn;<br>Grŵp ethnig arall | 1,2,3,4 |

| | | |
|---|---|---|
| Math o Aelwyd: 7 categori | Pensiynwr sengl (dim plant);<br>Pensiynwyr sy'n gwpl priod (dim plant);<br>Person sengl, ddim yn bensiynwr (dim plant);<br>Aelwyd yn cynnwys dau oedolyn gyda phlant;<br>Aelwyd yn cynnwys dau oedolyn (hyd at un pensiynwr) heb blant;<br>Aelwyd un rhiant;<br>Aelwydydd eraill; | 1,2,3,4 |
| Crefydd: 4 categori | Dim Crefydd;<br>Cristnogaeth;<br>Islam;<br>Crefydd Arall | 1,2,3,4 |
| Rhyw: 2 gategori | Benyw; Gwryw | 1,2,3,4 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol: 4 categori | Strêt neu Heterorywiol;<br>Hoyw neu Lesbiaidd;<br>Deurywiol;<br>Arall | 1,2,3 |

## Atodiad B: Tabl 7: Rhestr o Ddangosyddion Cenedlaethol y mae Arolwg Cenedlaethol Cymru'n casglu data ar eu cyfer.

| Dangosydd | Mesuriad (y dangosydd fel y'i gosodwyd yw hwn) | Mesuriad technegol (y disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd yw hwn, lle y bo'n briodol) | Dolen i ffynhonnell y data | Mynychder |
|---|---|---|---|---|
| 3 | Canran yr oedolion sydd â dau neu fwy o'r ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw | Canran yr oedolion (16+ oed) sydd â dau neu fwy o'r ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw (peidio ag ysmygu, peidio ag yfed mwy na'r hyn a bennir yn y canllawiau wythnosol, wedi bwyta pum neu fwy o ddognau o ffrwythau a llysiau y diwrnod cynt, wedi bod yn egnïol yn gorfforol am o leiaf 150 o funudau yn yr wythnos flaenorol, cynnal pwysau / mynegai màs y corff iach) | Ffordd o fyw oedolion (Arolwg Cenedlaethol Cymru) | Blynyddol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 19 | Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol. | Canran yr aelwydydd sydd ddim yn gallu fforddio nwyddau a gweithgareddau penodol sy'n nodweddiadol mewn cymdeithas ar adeg benodol, ni waeth pa un a fyddent yn dewis cael yr eitemau hyn ai peidio, hyd yn oed pe gallent eu fforddio.<br><br>Cyfrifir sgôr ar gyfer pob aelwyd yn seiliedig ar gyfansymiau pwysedig ar draws uchafswm o naw mesur gwahanol. Y pwysau ar gyfer pob mesur yw'r gyfran o gyfanswm y boblogaeth sydd â'r eitem honno. Ar gyfer pob mesur fe aseinir y pwysau i aelwyd wedyn os nad yw'r eitem honno ganddynt, caiff y rhain eu symio ar draws yr holl eitemau (a'u rhannu â | Arolwg Cenedlaethol Cymru: llesiant ac arian | Yn flynyddol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ffactor i sicrhau bod yr holl sgoriau ar raddfa o 0 i 100) i wneud cyfanswm sgôr amddifadedd. Mae eitemau sydd gan y rhan fwyaf o bobl yn cael eu pwysoli'n drymach, felly os nad yw'r eitem honno gan aelwyd yna mae'n cyfrif mwy tuag at y sgôr amddifadedd ar y cyfan nag eitem sydd gan lai o bobl. Ystyrir bod aelwydydd â sgôr o 25 a throsodd mewn amddifadedd materol.<br><br>Sylwer: Mae'r Arolwg o Adnoddau Teulu (FRS) yn llunio sgoriau amddifadedd materol ar gyfer y DU ond ni ellir cymharu'r rhain â ffigyrau amddifadedd yr Arolwg Cenedlaethol oherwydd y dulliau gwahanol a ddefnyddir. | | |
| 23 | Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. | Canran yr oedolion (16+ oed) sy'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiad: Gallaf ddylanwadu ar | Arolwg Cenedlaethol Cymru: democratiaeth a llywodraeth | Bob 2-3 blynedd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | benderfyniadau sy'n cael effaith ar fy ardal leol. | | |
| 24 | Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. | Canran yr oedolion (16+ oed) sy'n teimlo'n fodlon bod gwasanaethau a chyfleusterau da ar gael yn eu hardal leol, ac ar eu gallu i gyrraedd y gwasanaethau a'r cyfleusterau hyn. | Arolwg Cenedlaethol Cymru: ardal leol, y gymuned a'r amgylchedd | Fe'i casglwyd gyntaf yn 2017 i 2018, 2018 i 2019 ac yna bob 2 flynedd (dros dro) |
| 25 | Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio. | Canran yr oedolion (16+ oed) sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel ym mhob un o'r sefyllfaoedd canlynol: gartref wedi iddi dywyllu, cerdded adref yn eu hardal leol yn y tywyllwch, teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi iddi dywyllu, a theithio mewn car wedi iddi dywyllu. | Arolwg Cenedlaethol Cymru: ardal leol, y gymuned a'r amgylchedd | Bob 2-3 blynedd |
| 26 | Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw. | Canran yr oedolion (16+ oed) sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw ynddo. | Arolwg Cenedlaethol Cymru: ardal leol, y gymuned a'r amgylchedd | Ar gael yn 2016 i 2017 ac yna bob 2 flynedd (dros dro) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 27 | Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch. | Canran yr oedolion (16+ oed) sy'n cytuno â thri datganiad ynghylch eu hardal leol: teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda; bod pobl yn trin ei gilydd â pharch. | Arolwg Cenedlaethol Cymru: ardal leol, y gymuned a'r amgylchedd | Bob 2-3 blynedd |
| 28 | Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli. | Canran y bobl (16+ oed) sy'n gwirfoddoli: a fesurir yn ôl canran yr oedolion sy'n rhoi o'u hamser am ddim i helpu clybiau neu sefydliadau (ffurfiol neu anffurfiol); neu sy'n cefnogi aelodau o'u teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd afiechyd corfforol neu feddyliol hirdymor neu anabledd, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint. | Arolwg Cenedlaethol Cymru: llesiant ac arian | Blynyddol tan 2017 i 2018, ond bydd data ar dueddiadau'n cael ei adolygu i bennu'r mynychder o 2018 i 2019 |
| 29 | Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl. | Ar gyfer oedolion (16 oed neu drosodd), y sgôr llesiant meddyliol cymedrig yn ôl Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin (WEMWBS). | Arolwg Cenedlaethol Cymru: llesiant ac arian<br>The UK Household Longitudinal Study | Oedolion – bob 2 flynedd<br><br>Plant – oddeutu bob 2 flynedd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | http://www2.warwick.ac.uk/fac/med/research/platform/wemwbs/<br><br>Ar gyfer plant, y sgôr cymedrig gan ddefnyddio'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (gwybodaeth o'r arolwg Deall Cymdeithas). http://www.sdqinfo.com/ | | |
| 30 | Y ganran o'r bobl sy'n unig. | Canran yr oedolion (16+ oed) sy'n unig yn ôl graddfa unigrwydd De Jong Gierveld. | Arolwg Cenedlaethol Cymru: llesiant ac arian | Bob 2-3 blynedd |
| 35 | Canran y bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn. | Canran yr oedolion (16+ oed) sydd wedi bod yn bresennol mewn digwyddiadau ym myd y celfyddydau, wedi cyfranogi mewn gweithgareddau ym myd y celfyddydau, neu wedi ymweld â safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a/neu archifau o leiaf 3 gwaith yn y 12 mis diwethaf. Mae digwyddiadau ym myd y celfyddydau'n cynnwys: dangos ffilm, theatr, | Arolwg Cenedlaethol Cymru: diwylliant a'r iaith Gymraeg | Blynyddol tan 2017 i 2018, ond bydd data ar dueddiadau'n cael ei adolygu i bennu'r mynychder o 2018 i 2019 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cerddoriaeth fyw, perfformiad dawns, digwyddiadau adrodd storïau neu ddarllen, a digwyddiadau eraill ym myd y celfyddydau. Mae gweithgareddau ym myd y celfyddydau'n cynnwys: cerddoriaeth, gweithgaredd drama/theatrig, dawns, creu ffilm/ffotograffiaeth, celf a chrefft weledol, ysgrifennu creadigol, creu celfwaith/animeiddiad gan ddefnyddio technoleg ddigidol, a sgiliau syrcas. | | |
| 36 | Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg. | Canran y bobl sy'n dweud mewn ymateb i gwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (ar gyfer oedolion 16+ yn flynyddol) ac Arolygon Defnydd Iaith (ar gyfer pobl 3+ oed) eu bod yn gallu siarad mwy na 'dim ond ychydig eiriau' o Gymraeg a'u bod yn siarad Cymraeg yn feunyddiol. | Arolwg Cenedlaethol Cymru: diwylliant a'r iaith Gymraeg<br><br>Arolwg defnydd iaith | Yn flynyddol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. (Nid yw'r Arolwg Defnydd Iaith yn arolwg rheolaidd) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 38 | Y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos. | Y ganran o'r boblogaeth sy'n dweud eu bod yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd chwaraeon awyr agored neu dan do, a pha mor aml y maent yn cymryd rhan | Arolwg Cenedlaethol Cymru: chwaraeon a hamdden<br><br>Arolwg ar Chwaraeon Ysgol | Blynyddol tan 2017 i 2018, ond bydd data ar dueddiadau'n cael ei adolygu i bennu'r mynychder o 2018 i 2019 |
| 46 | Dinasyddiaeth fyd-eang weithredol yng Nghymru | O 2021 bydd cwestiynau newydd sy'n gofyn a yw pobl yng Nghymru'n ddinasyddion byd-eang gweithredol yn cael eu cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru a byddant yn cyfrannu at ddangosydd diwygiedig yn 2022. Mae'r cwestiynau'n gofyn a yw ymatebwyr wedi rhoi neu godi arian, wedi gwirfoddoli neu gefnogi unrhyw weithgareddau sy'n mynd i'r afael â materion byd-eang fel hawliau dynol, ffoaduriaid, neu faterion amgylcheddol byd-eang. | Amh. | Ddim yn hysbys |

## Atodiad C: Tabl 8: Rhestr o Ddangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol a ofynnwyd fesul blwyddyn

Z = Amherthnasol

| Dangosydd CD | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 | 18-19 | 19-20 | 20-21 | 21-22 | 22-23 | 23-24 | 24-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran yr oedolion sydd â dau neu fwy o'r ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw** | Z | Z | Z | Z | D | D | D | D | N | D | D | Z | D |
| **Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol.** | Z | Z | Z | Z | D | D | D | D | N | D | D | Z | D |
| **Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.** | D | D | D | Z | D | N | D | N | D | D | N | Z | D |
| **Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.** | Z | Z | Z | Z | Z | D | D | N | N | D | N | Z | D |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio.** | Z | Z | Z | Z | D | N | D | N | D | D | N | Z | D |
| **Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw.** | Z | Z | Z | Z | D | N | D | N | D | D | N | Z | D |
| **Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.** | Z | Z | Z | Z | D | N | D | N | D | D | N | Z | D |
| **Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli.** | Z | Z | Z | Z | D | D | N | D | N | D | D | Z | D |
| **Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl.** | Z | Z | Z | Z | D | N | D | N | N | D | D | Z | D |
| **Y ganran o'r bobl sy'n unig.** | Z | Z | Z | Z | D | D | N | D | D | D | D | Z | N |
| **Canran y bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn.** | Z | Z | Z | Z | Z | D | N | D | N | N | D | Z | N |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y ganran o’r bobl sy’n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy’n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg.** | D | D | D | Z | D | D | D | D | D | D | D | Z | D |
| **Y ganran o’r bobl sy’n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos.** | Z | Z | Z | Z | D | D | D | D | D | D | D | Z | D |
| **Dinasyddiaeth fyd-eang weithredol yng Nghymru** | Z | Z | Z | Z | Z | Z | Z | Z | Z | D | N | Z | D |